# PWYLLGOR MONITRO RHAGLENNI CYMRU

# CRONFEYDD STRWYTHUROL A BUDDSODDI EWROPEAIDD 2014-2020

**Dyddiad:** 18 Hydref 2019

**Amser:** 10.30yb

**Lleoliad:** Canolfan Adnoddau Cyfryngau, Heol Rhydychen, Llandrindod. LD16AH

## AGENDA

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1. | Croeso ac Ymddiheuriadau | 10:30 – 10:35 | |
| 2. | Cofnodion mis Mehefin, camau gweithredu a materion eraill sy'n codi, | 10:35 – 10:45 | WPMC(19)M19 |
| 3. | Y diweddaraf am hynt y Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd gan gynnwys gwaith datblygu portfolio. | 10:45 – 11:30 | WPMC(19)164 |
| 4. | Themau Trawsbynciol: Adroddiad Blynyddol Datblygu Cynaliadwy | 11:30 – 11:50 | WPMC(19)165 |
| 5. | Trefniadau Rheoli Rhaglenni ar ôl Ymadael â'r UE | 11:50 – 12:10 | |
| 6. | Cynllun Cyfarthrebu Blynyddol ar gyfer y Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd | 12:10 – 12:30 | WPMC(19)166 |
| 7. | Cyflwyniad – Dyfodol Cambrian Futures | 12:30 – 13:00 | |
| 8. | Unrhyw Fater Arall | 13:00 | |

**CRONFEYDD STRWYTHUROL A BUDDSODDI EWROPEAIDD 2014-2020**
**PWYLLGOR MONITRO RHAGLENNI CYMRU**

**Dydd Llun 3 Mehefin 2019**
**Gwesty'r Marriott, Abertawe**

**Nodiadau'r Cyfarfod**

## EITEM 3: Croeso, Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau

1. Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod Pwyllgor Monitro Rhaglenni Cymru a diolchodd i'r eilyddion am fod yn bresennol. Diolchwyd hefyd i arsyllwyr y Comisiwn Ewropeaidd am fod yn bresennol ac am eu hymgysylltu adeiladol.

2. Rhestrir y mynychwyr a'r ymddiheuriadau yn **Atodiad A.**

## EITEM 4: Adroddiadau Gweithredu Blynyddol

3. Cyn i gyfarfod y Pwyllgor Monitro Rhaglenni gael ei gynnal, fe gynhaliwyd sesiwn gweithdy lle y cafodd yr Aelodau gyfle i ystyried a thrafod cynnwys yr Adroddiadau Gweithredu Blynyddol. Gan ystyried sylwadau ac arsylwadau'r Aelodau, gofynnodd y Cadeirydd i'r Pwyllgor roi ystyriaeth i gymeradwyo pob un o'r adroddiadau.

4. Cymeradwyodd Aelodau'r Pwyllgor Monitro Rhaglenni Adroddiad Gweithredu Blynyddol ERDF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd.

5. Cymeradwyodd Aelodau'r Pwyllgor Monitro Rhaglenni Adroddiad Gweithredu Blynyddol ESF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd.

6. Cymeradwyodd Aelodau'r Pwyllgor Monitro Rhaglenni Adroddiad Gweithredu Blynyddol ERDF Dwyrain Cymru.

7. Cymeradwyodd Aelodau'r Pwyllgor Monitro Rhaglenni Adroddiad Gweithredu Blynyddol ESF Dwyrain Cymru.

8. Cymeradwyodd Aelodau'r Pwyllgor Monitro Rhaglenni Adroddiad Gweithredu Blynyddol y Rhaglen Datblygu Gwledig (RDP).

## EITEM 5: Cofnodion cyfarfod mis Ionawr, camau gweithredu a materion eraill sy'n codi

9. Cytunwyd bod angen newid paragraffau 52-53 y Cofnodion; nid oes angen i'r Aelodau gael atodiad i'r papur a gyflwynwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Monitro Rhaglenni ym mis Ionawr bellach, gan fod cyfarfod wedi'i gynnal yn lle hynny gydag Aelodau Gwledig i roi sylw i'r mater. Cytunwyd, felly, nad oedd angen cymryd unrhyw gamau pellach.

   **CAM GWEITHREDU: Dylid newid y cofnodion gan hynny.**

10. Bydd gwaith yn cael ei wneud ar ymestyn Glastir dros fisoedd yr haf yn barod ar gyfer cytundeb yn yr hydref. Mae angen eglurhad ynghylch a ellir parhau â'r estyniadau hyn y tu hwnt i ddiwedd 2020.

11. Holodd un o'r Aelodau a fydd modd ymestyn yr amser a darparu cyllid ychwanegol ar gyfer LEADER+. Mae angen eglurhad pellach ynghylch a oes gwaith yn cael ei wneud ar y rhain a pha un a ellir eu cynnal tan 2023.

12. Rhoddodd Ruth Studley wybod i'r Aelodau fod cydweithwyr yn gweithio gyda Grwpiau Gweithredu Lleol i ddeall eu hanghenion a deall yr angen am gyllid ychwanegol.

13. Roedd y pwyntiau gweithredu dilynol i gyd wedi'u cwblhau, felly cytunodd yr Aelodau ar y cofnodion.

**CAM GWEITHREDU: Dylai cydweithwyr RDP gynnig eglurder ynghylch dyddiadau ymestyn a gwirio bod gwaith ymgysylltu gyda'r Grwpiau Gweithredu Lleol ar droed. Mae hyn wedi'i gwblhau erbyn hyn.**

**EITEM 6: Y Diweddaraf am Gynnydd Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd, yn cynnwys datblygu portffolio**

<u>Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Y Rhaglen Datblygu Gwledig</u>

14. Esboniodd Ruth Studley fod y misoedd diwethaf wedi bod yn anodd o gofio'r hinsawdd wleidyddol a marwolaeth ddisymwth cydweithiwr, Gordon Smith. Diolchwyd i'r aelodau am eu cefnogaeth yn ystod y cyfnod anodd hwn.

15. Mae Rhaglen Datblygu Gwledig (RDP) 2014-2020 yn parhau i wneud cynnydd da ers iddi gael ei chymeradwyo. Cymeradwywyd/mabwysiadwyd yr ail addasiad ar 14 Mawrth 2019. Mae'n debygol y bydd angen trydydd addasiad yn ystod 2019 er mwyn ystyried unrhyw newidiadau y bydd eu hangen yng ngoleuni ein hymadawiad â'r Undeb Ewropeaidd a chytundeb ar y cyfeiriad yn y dyfodol hyd

at ddiwedd y rhaglen. Bydd yr aelodau'n cael gwybod am unrhyw benderfyniadau'n ymwneud â hyn.

16. Roedd y diweddaraf am y Rhaglen Datblygu Gwledig yn seiliedig ar ddata hyd at ddiwedd Ebrill 2019: mae'r ymrwymiad ar lefel prosiect ar gyfer y rhaglen yn gyfanswm o £640m, sef ymrwymiad o 77% yn erbyn dyraniad y Rhaglen. Hyd yn hyn, mae gwariant cyffredinol y Rhaglen wedi cynyddu mwy na £62m ers y Pwyllgor Monitro Rhaglenni diwethaf, i £307m (mae £211m o'r swm hwn yn EAFRD), ac mae £126m ohono'n ymwneud â thaliadau trosglwyddo Colofn 1. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflawni'i tharged ar gyfer 2019 sef €247.6m yn chwarter cyntaf 2019.

17. Ar gyfer y cynlluniau economaidd-gymdeithasol yn y Rhaglen, mae cyfanswm o 831 o ddatganiadau o ddiddordeb llwyddiannus wedi cael gwahoddiad i gyflwyno cais llawn. Hyd yn hyn, mae 624 o geisiadau llawn wedi'u derbyn, mae 552 wedi'u harfarnu, ac mae 498 o weithrediadau wedi'u cymeradwyo gyda dyraniad cyffredinol, yn cynnwys LEADER, o £315m. Ers i'r Grant Busnes i Ffermydd gychwyn, mae 5 o gyfnodau ymgeisio wedi'u cynnal ac mae cyfanswm o 2,552 o ffermwyr wedi cael cymeradwyaeth, gyda'r gwariant hyd yn hyn yn gyfanswm o £12.1m.

18. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn parhau i adolygu dyraniadau o fewn y Rhaglen Datblygu Gwledig o gofio'r hinsawdd economaidd gyfnewidiol sydd ohoni (Brexit). Pan ddaw gwybodaeth bellach i'r fei, bydd Aelodau'r Pwyllgor Monitro Rhaglenni yn cael gwybod cyn gynted ag y bo modd.

19. Nid yw gwerthoedd ariannol wedi'u cyhoeddi gan fod y gweithgareddau arfaethedig yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth y Comisiwn Ewropeaidd trwy'r broses addasu. Gofynnir i'r Pwyllgor Monitro Rhaglenni gyflwyno barn ynghylch yr addasu arfaethedig yn ei dro.

20. Mae angen i Lywodraeth Cymru gynnal gwaith i ddiweddaru'r holl ffigurau rhagolygol. Bydd yr ymarfer hwn wedi'i gwblhau erbyn cyfarfod nesaf y Pwyllgor Monitro Rhaglenni, yn unol â gwaith yn ymwneud â thrydydd addasiad y Rhaglen.

21. Mae cyflawni araf Cyswllt Ffermio ar y cychwyn yn adlewyrchu ymarfer ailbroffilio: mae Llywodraeth Cymru yn cynnig cael gwared ag Is-fesur 2.3 o'r Rhaglen yn ystod yr ail addasiad; mae Mesurau 1 a 2 yn mynd rhagddynt yn iawn o safbwynt cyrraedd targedau gweithgarwch a thargedau ariannol. Mae'r rhagolygon ar gyfer Mesur 4 yn is na'r disgwyl; mae hyn yn deillio o'r ffaith na ellir proffwydo ond hyd at ddiwedd 2018. Bydd rhagolygon ar gyfer rowndiau'r dyfodol wedi'u cynnwys erbyn y Pwyllgor Monitro Rhaglenni nesaf.

22. Er yr ymddengys na chyflawnwyd rhyw lawer, mae cyflawni'r EIP yng Nghymru hyd yn hyn wedi bod yn llwyddiant, gan annog cyfranogiad gan ffermwyr sy'n

dod ynghyd fel Grwpiau Gweithredol, gyda 111 o ffermwyr-aelodau i gyd ar draws 19 o Grwpiau Gweithredol cymeradwy. Mae cyfanswm o £742k wedi'i ddyfarnu rhwng yr 19 grŵp, sef £39k ar gyfartaledd i bob grŵp (y cymorth mwyaf y gellir ei roi yw £40k), a'r targed cyffredinol ar gyfer y rhaglen yw 45 o grwpiau.

23. Blaenoriaeth 3 – Ni cheir pryderon ynghylch y gallu i gyflawni'r targedau gwreiddiol sy'n seiliedig ar oes y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd (FBIS). Mae'r cynnydd hyd yn hyn yn dangos capasiti a gallu'r cynllun, er bod gwariant Mesur 16 yn ymddangos yn isel, fel y trafodwyd eisoes. Mae Llywodraeth Cymru yn cymryd camau unioni i sicrhau y bydd y Mesur hwn yn cyflawni.

24. Blaenoriaeth 4 – Caiff y Flaenoriaeth hon ei hollti rhwng gweithgareddau Amaethyddiaeth a gweithgareddau Coedwigaeth, gyda'r rhan fwyaf o'r cyllid yn cyflawni yn erbyn Mesurau cysylltiedig ag Amaethyddiaeth. Ni cheir problemau mawr o ran cyflawni dan y Flaenoriaeth hon, ac mae estyniadau a diwygiadau Glastir wedi'u trafod eisoes.

25. Blaenoriaeth 5 – Yn dilyn cyfnod ymgeisio cyntaf y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Pren (TBIS), nid oes unrhyw brosiectau wedi'u cymeradwyo dan Flaenoriaeth 5; mae'r holl rai wedi'u cymeradwyo dan Flaenoriaeth 6, ac oherwydd hyn ni ddangosir bod unrhyw beth wedi'i gyflawni dan y Flaenoriaeth hon ar hyn o bryd. Wedi dweud hyn, bydd mwyafrif y prosiectau sydd wedi'u cyflwyno yn y rowndiau diweddaraf yn cyfrannu'n uniongyrchol at y Flaenoriaeth hon, felly fe ddylid gweld gwelliant sylweddol o ran cyflawni mewn adroddiadau diweddarach. Er bod y maes a gynorthwyir dan Fesur 10.1 fel pe bai'n dangos cyflawniad isel, adroddir ar y dangosydd hwn yn flynyddol yn hytrach nag ar sail gronnol, ac nid oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw bryderon ynghylch cyflawni cynlluniau dan Fesur 10 (Glastir).

26. Blaenoriaeth 6 – Cyflawnir dau gynllun dan M6.4 gan Is-adran Fwyd Llywodraeth Cymru a Croeso Cymru, ac ni cheir problemau o ran cyflawni hyd yn hyn mewn perthynas â'r Cynlluniau yma. Ar y cychwyn, roedd y cyflawni'n araf, ond maent yn adeiladu momentwm ac yn anelu at gyflawni gweithgarwch a gwariant llawn erbyn diwedd y Rhaglen. Cafodd Llywodraeth Cymru wared â Mesur 6.2 o'r Rhaglen yn yr ail addasiad; fodd bynnag, mae'r arian hwn wedi aros ym Mesur 6.

27. Mae cynnydd ymddangosiadol araf Llywodraeth Cymru o ran arfarnu a chymeradwyo ceisiadau prosiectau dan y Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig (RCDF) wedi arwain at beth beirniadaeth allanol. Mae tystiolaeth sydd wedi deillio o raglenni grant gwahanol yn y gorffennol yn dangos angen clir i wella cydweithredu ar draws y sector a gwireddu'r buddion y gellir eu cyflawni trwy wella'r cysylltiadau rhwng adnoddau naturiol a llesiant ehangach.

28. Nod y grant Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant (ENRaW) yw ymdrin â'r materion hyn. Bwriad penodol y cynllun newydd hwn yw dechrau taclo materion yn ymwneud ag ansawdd amgylcheddau lleol, a gwneud hynny ar raddfa briodol, gan gyflwyno gwelliannau gweledol mewn, ac o amgylch, mannau y mae pobl yn byw ynddynt.

29. Mesur 19 LEADER – Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phob Grŵp Gweithredu Lleol i gadarnhau eu sefyllfa yn erbyn eu dyraniad gwreiddiol (yn cynnwys gwariant hyd yn hyn, taliadau a wnaed, hawliadau sydd ar y gweill, a phroffil gwariant y dyfodol). Ar ôl cytuno ar sefyllfa pob Grŵp Gweithredu Lleol, byddwn yn asesu pa rai, os o gwbl, a fydd angen cymorth ychwanegol.

30. Fel y dengys y data yn y sleidiau hyn, mae'r Rhaglen yn mynd yn ei blaen yn dda, gyda'r gwariant a'r gweithgarwch wedi cynyddu'n sylweddol ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Monitro Rhaglenni. Bydd y duedd hon yn parhau yn ystod y blynyddoedd sy'n weddill, gyda Llywodraeth Cymru yn cyrraedd targed N+3 2019 o €247.6m yn chwarter cyntaf 2019. Mae gwerthoedd Fframwaith Perfformiad wedi'u cyrraedd yn seiliedig ar dargedau'r ail addasiad, a bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i sicrhau y bydd y Rhaglen yn cyflawni'n llwyddiannus yn yr amgylchedd gwleidyddol ac economaidd heriol sydd ohoni.

31. Dywedodd Marek Beran fod lefel ymrwymiad y Rhaglen Datblygu Gwledig ar 38%, sef rhywfaint yn is na'r Undeb Ewropeaidd, sydd ar 41%; ond mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn fodlon gyda'r cynnydd.

**CAM GWEITHREDU – Cadarnhau pa fesurau y mae ENRaW yn cyflawni danynt**

<u>Trosolwg o Gronfeydd Strwythurol</u>

32. Rhoddodd Peter Ryland drosolwg o gynnydd y Rhaglen ers mis Ionawr 2019:

- Yr amgylchedd cyffredinol ac amserlen ymadael â'r Undeb Ewropeaidd – er bod gan hyn oblygiadau ar gyfer y rhaglenni, bydd WEFO yn parhau i gyflawni'r Rhaglenni yr un fath ag arfer, pa un a fydd y DU yn aros ynteu'n gadael yr Undeb Ewropeaidd gyda/heb gytundeb.
- Gwarant Trysorlys Ei Mawrhydi – ni cheir arwydd y bydd y telerau na'r amserlenni'n newid. Wrth i amser fynd heibio ac wrth i fwy o arian gael ei wario, bydd llai o ddibyniaeth ar y warant. Felly, mae WEFO yn parhau i annog buddiolwyr i wario/hawlio/cyflawni.
- Ar y cyfan mae Cronfeydd Strwythurol wedi'u hymrwymo 95%: cynnydd o 6% ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Monitro Rhaglenni, gyda 240 o weithrediadau wedi'u cymeradwyo bellach, sef cyfanswm o £3.4bn.

- Mae targedau N+3 wedi'u cyflawni ar gyfer 2019 mewn perthynas â'r pedair Rhaglen Cronfa Strwythurol.
- Mae'r ymrwymiad ar gyfer y rhaglen ERDF yn 95% ar y cyfan – Dwyrain Cymru 97% a Gorllewin Cymru a'r Cymoedd 95%, gyda'r prosiectau Minesto, Magma a Metro wedi'u cymeradwyo'n ddiweddar.
- Mae gwariant wedi cynyddu'n raddol. Hyd at fis Mawrth fe weithiodd WEFO i sicrhau bod taliadau digonol yn mynd trwy'r system i fodloni targedau'r gronfa berfformiad.
- O ran tynnu i lawr, y gyfradd ar gyfer ERDF ar hyn o bryd yw 25%, sy'n uwch na'r cyfartaledd ar draws Ewrop, sef 21%.
- Mae'r ymrwymiad ar gyfer y rhaglen ESF yn 96% ar y cyfan – Dwyrain Cymru 82% a Gorllewin Cymru a'r Cymoedd 99%, gyda'r prosiectau METAL2, KESS2 a dau o brosiectau BioArloesi Cymru wedi'u cymeradwyo'n ddiweddar.
- Mae gwariant ESF wedi'i ymrwymo 96% ac mae 34% wedi'i dynnu i lawr – eto, mae hyn yn uwch na'r cyfartaledd ar draws Ewrop, sef 11%.
- Mae WEFO yn gweithio i ymrwymo'n llwyr i Flaenoriaeth 3 ERDF a Blaenoriaeth 5 ESF; fodd bynnag, ni cheir unrhyw bryder na fydd yr arian yn cael ei ddyrannu'n llwyr ar draws y Rhaglenni.
- Mae'r blaenoriaethau ar gyfer y cyfnod sydd i ddod yn cynnwys:
    - paratoi ar gyfer addasu rhaglen Dwyrain Cymru i ymdrin ag addasiadau'r Gronfa Berfformiad
    - ymrwymo'r cronfeydd sy'n weddill
    - paratoi addasiad ar gyfer rhaglen Gorllewin Cymru a'r Cymoedd fel y gellir ei gyflwyno ar ôl i addasiad y Gronfa Berfformiad gael ei brosesu.

33. Bydd mwy o wybodaeth mewn perthynas â'r addasiad yn cael ei chyflwyno yng nghyfarfod mis Medi 2019 y Pwyllgor Monitro Rhaglenni, gan fod angen cael cymeradwyaeth y Pwyllgor Monitro Rhaglenni. Bydd addasiad Dwyrain Cymru yn cael ei gwblhau yn gyntaf, a bydd addasiad Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn ddibynnol ar gynnydd y prosiect rhwng rŵan a'r hydref.

34. Cynhaliwyd trafodaeth bellach rhwng Sue Price a Guus Muijzers ynglŷn ag amseru'r ddau addasiad ERDF. Cytunwyd y byddai WEFO yn parhau i'w paratoi ar gyfer eu cymeradwyo – ni ddisgwylir i hon fod yn broses gymhleth.

35. Mynegodd un o'r aelodau bryderon ynglŷn â Blaenoriaeth 3 ESF, sef a yw'r rhai sy'n gysylltiedig â chyflawni'r agwedd hon ar y Rhaglen yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol mewn partneriaeth. Cyfeiriwyd at wasanaeth cynghori Cymru'n Gweithio yn y cyd-destun hwn: ac yntau wedi'i sefydlu i roi cyngor a chydweddu/cyfeirio pobl at y cymorth iawn. Nodwyd y bu'n rhaid cael cydgysylltu agos gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau, ynghyd â buddsoddiad sylweddol o ran amser ac ymdrech, er mwyn datblygu dull partneriaeth ystyrlon.

36. Mae monitro cyfraddau cyfnewid yn parhau i fod yn flaenoriaeth uchel i WEFO. Os bydd y DU yn aros yn yr Undeb Ewropeaidd am weddill y rhaglen, fe allai'r gyfradd €/£ fod yn anwadal iawn. Mae'r gyfradd ar gyfer Gwarant Trysorlys Ei Mawrhydi ar hyn o bryd yn €1.17/ £1, er efallai y bydd y gyfradd hon yn cael ei hailystyried ym mis Hydref.

37. Gofynnodd un o'r Aelodau a yw Trysorlys Ei Mawrhydi wedi cadarnhau'r sefyllfa o ran Cymorth Technegol mewn perthynas â'r Warant. Esboniodd Peter Ryland nad yw Cymorth Technegol byth yn dod o fewn cwmpas y Warant, ond mae Llywodraeth y DU wedi gwneud cofnod o bryderon a materion cysylltiedig ac maent wedi gofyn i'r Gweinyddiaethau Datganoledig am fwy o fanylion ynglŷn â'r costau cysylltiedig.

38. Gan fod WEFO yn rheoli ymrwymiadau ac yn gwneud penderfyniadau o ran symud cronfeydd, aeth yr Aelod yn ei flaen i ddweud y byddai'n fuddiol cael arwydd cynnar ynghylch faint o gyllid ychwanegol a fydd ar gael ym Mlaenoriaeth 4. Crybwyllodd yr Aelod hefyd fod y rhanbarthau, o safbwynt ESF, yn cyflwyno'u Tablau Rhesymeg Gweithredu ar gyfer Blaenoriaeth 5 a'u bod yn dymuno i'r broses gymeradwyo gael ei rhoi ar waith yn fuan, gan nodi bod angen i'r cynigion fod yn gwbl addas i'r rhanbarthau.

39. Cadarnhaodd Sue Price fod y posibilrwydd o symud arian rhwng blaenoriaethau'n dal i gael ei ystyried. Roedd WEFO wedi cynnal dadansoddiad manwl ac maent wrthi'n monitro perfformiad yn y meysydd hyn, ac mae prosiectau araf eu perfformiad wedi cael amserlen ar gyfer gwella.

40. O ran Blaenoriaeth 5 newydd ESF – mae'r ceisiadau rhanbarthol wedi cyrraedd y cam Cynllunio Busnes, lle y caiff y manylion eu cadarnhau. Rhoddir cryn ffocws ar elfen ranbarthol y cynigion hyn a chaiff ceisiadau eu gwthio'n ôl er mwyn cynnal trafodaethau rhanbarthol pellach pan fo angen. Fodd bynnag, nid oes angen cael cynnydd yn y flaenoriaeth hon o fewn y flwyddyn.

41. Dywedodd un o'r Aelodau fod Gweinidogion newydd gyhoeddi argyfwng hinsawdd, a'i bod yn bwysig felly peidio â dadymrwymo'r cronfeydd. Mae prosiectau Blaenoriaeth 3 ERDF angen amser i wneud cynnydd. Gofynnwyd hefyd a oes themâu cyson i'w cael mewn perthynas â'r prosiectau hynny sy'n cael anawsterau.

42. Mae cymeradwyo Minesto yn ddiweddar wedi mynd ag ymrwymiad y Flaenoriaeth Ynni i 70%, sef cynnydd sylweddol ers y Pwyllgor Monitro Rhaglenni diwethaf.

43. Esboniodd Sue Price ymhellach y bydd nifer o faterion y mae prosiectau Ynni Morol yn eu hwynebu yn effeithio ar y cynnydd. Mae terfynau Cymorth Gwladwriaethol o 70% o gyllid grant yn arwain at anawsterau o safbwynt cael

digon o arian cyfatebol. Nid oes unrhyw ffrydiau cyllido dan arweiniad y Llywodraeth i'w cael, a dyna'r sefyllfa hefyd gydag ynni'r haul/gwynt. Ymhellach, gall y broses ganiatáu fod yn hir a heriol, gydag astudiaethau'n gallu cymryd hyd at ddwy flynedd i'w cwblhau. Hefyd, ar gyfer prosiectau cymunedol, mae bwlch o ran cynllunio busnes a sgiliau cyflawni wedi'i ganfod.

44. Cafwyd trafodaeth bellach ynglŷn â'r angen i barhau i ddefnyddio'r rhaglen bresennol a rhaglenni cyfnewid fel dulliau dysgu gweithredol effeithiol er mwyn sicrhau y bydd modd ymgysylltu â chymunedau wrth symud ymlaen. Dywedodd un o'r Aelodau fod angen gwneud ESF yn fwy hygyrch i gymorth busnes a'i bod yn bwysig sicrhau y rhoddir ystyriaeth i'r defnydd o gaffael yn erbyn darpariaeth gynlluniedig, fel gyda Phrentisiaethau. Cadarnhaodd Peter Ryland fod y trafodaethau hyn yn cael eu cynnal yn y Grŵp Llywio ar gyfer Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru, ac fe all WEFO barhau i fod yn gatalydd ar gyfer cydgysylltu pethau, wrth symud ymlaen, ar draws Llywodraeth Cymru.

45. Rhoddodd Peter Ryland wybod i'r Aelodau mai hwn oedd cyfarfod diwethaf Rob Halford gyda'r Pwyllgor Monitro Rhaglenni, a diolchodd iddo am ei gyfraniad.

**EITEM 7: Themâu Trawsbynciol – Adroddiad Blynyddol Cyfle Cyfartal a Phrif-ffrydio Rhywedd**

46. Cyflwynodd Chriss O'Connell, Pennaeth yr Uned Themâu Trawsbynciol, bapur yn sôn am Gyfle Cyfartal a Phrif-ffrydio Rhywedd. Tynnwyd sylw at sawl maes o ddiddordeb:

- Y prosiect 'Limitless' gan Threshold – prosiect sy'n gweithio gyda menywod sydd wedi dioddef cam-drin domestig. Mae hwn yn brosiect hynod bwysig ac yn gyfraniad sylweddol at yr Agenda Cydraddoldeb. Dyma'r tro cyntaf i brosiect o'r fath gael ei gyllido.
- Mae Busnes Cymru yn parhau i wneud cynnydd sylweddol yn erbyn y dangosyddion.
- Nid yw'r ystadegau ar gyfer nifer y siaradwyr Cymraeg wedi newid, ond ni cheir gostyngiad.
- Mae dadansoddiad o ddangosyddion Cyfle Cyfartal y Themâu Trawsbynciol yn Atodiad 2 yr adroddiad yn dangos y ffigurau sydd wedi'u cymryd o system TG WEFO (PPIMS) am y tro cyntaf. Er bod y ffigurau hyn yn ymddangos fel pe baent wedi gostwng, nid yw hynny wedi digwydd. Credir mai problem adrodd sydd wrth wraidd hyn ac y bydd y system yn dal i fyny â 'data byw'.
- Tynnwyd sylw'r aelodau at yr astudiaethau ymchwil y cyfeirir atynt yn yr adroddiad.

- Mae ffeithluniau wedi'u datblygu ac mae trydariadau wedi'u cynnwys yn yr adroddiad fel ffordd fwy cyffrous o gyflwyno'r data.

47. I grynhoi, dywedodd Chriss O'Connell ei bod wedi bod yn gyfnod hynod brysur a chynhyrchiol wrth i'r tîm barhau i gefnogi'r agenda. Cafwyd adborth cadarnhaol ar y dangosyddion lefel achosion a ddefnyddir. Nid yw pob targed wedi'i gyrraedd, ond ar y cyfan mae cynnydd da'n cael ei wneud.

48. Diolchodd y Cadeirydd i Chriss, gan ddweud ei bod yn galonogol iawn gweld sut y mae popeth yn cydweddu ag agenda Llywodraeth Cymru.

49. Dywedodd un o'r Aelodau fod y Themâu Trawsbynciol yn cyd-fynd yn dda â'r contract economaidd a bod newidiadau o ran ymddygiad ac ansawdd yn bwysig.

**EITEM 9: Unrhyw Fater Arall**

50. Bydd cyfarfod nesaf y Pwyllgor Monitro Rhaglenni yn cael ei gynnal ddydd Gwener 20 Medi 2019. Nid yw'r lleoliad wedi'i gadarnhau eto.

51. Dywedodd Hugh Morgan wrth yr Aelodau fod y prosiectau economaidd-gymdeithasol ar gyfer y Rhaglen Datblygu Gwledig yn profi'r un problemau â'r Cronfeydd Strwythurol ac y bydd y tîm yn cysylltu â'r buddiolwyr i sicrhau bod prosiectau'n gwario.

    Dywedodd Guus Muijzers wrth yr Aelodau fod adroddiad Gwladol wedi'i gyhoeddi gan y Comisiwn Ewropeaidd: European Semester: Assessment of progress on structural reforms, prevention and correction of macroeconomic imbalances, and results of in-depth reviews under Regulation (EU) No 1176/2011. Roedd o'r farn y byddai'n fuddiol i'r Aelodau ei ddarllen.

**CAM GWEITHREDU: Dylid anfon yr adroddiad at yr ysgrifenyddiaeth fel y gellid ei anfon wedyn at yr Aelodau.**

52. Cydnabu'r Cadeirydd y gallai hyn hefyd fod yn bwnc trafod yn y Grŵp Llywio ar gyfer Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru.

53. Diolchodd y Cadeirydd i'r ysgrifenyddiaeth unwaith eto am drefnu'r cyfarfod ac i'r Aelodau am roi o'u hamser i fynychu sesiwn y bore, a fu'n fuddiol iawn. Bydd tîm y Pwyllgor Monitro Rhaglenni yn cnoi cil ar y modd y dylid bwrw ymlaen â hyn yn y dyfodol.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Monitro Rhaglenni Mehefin 2019**

**ATODIAD A**

**CRONFEYDD STRWYTHUROL A BUDDSODDI EWROPEAIDD 2014-2020**

**PWYLLGOR MONITRO RHAGLENNI CYMRU**

**Dydd Llun 3 Mehefin 2019**
**Gwesty'r Marriott, Abertawe**

**Cadeirydd –** Huw Irranca-Davies AC

***Aelodau a enwebwyd ar sail gynrychiadol, o bartner-sefydliadau a chyrff statudol:***

| | |
|---|---|
| Tom Whyatt | Busnes a Menter (Diwydiant Cymru) |
| Lowri Owain | LEADER |
| Lowri Gwilym | Eilydd ar ran Rob Stewart, Llywodraeth Leol (CLlLC) |
| Charlotte Priddy<br>Rachel Lewis-Davies | Undeb Amaethwyr Cymru (FUW)<br>Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr (NFU) |
| Huw Bryer | Llywodraeth Cymru (Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol) |
| Phil Fiander | Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA) |
| Tove Oliver | Eilydd ar ran David Blaney, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru |
| Derek Walker | Busnes a Menter: Mentrau Cymdeithasol (Y Trydydd Sector) |
| Rachel Garside-Jones | Llywodraeth Cymru |
| Rudi Plaut | Uned Partneriaid Cymdeithasol Cymru/Commerce Cymru |
| Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn | Llywodraeth Leol (CLlLC) |
| Iestyn Davies | |
| | |

***Aelodau a ddewiswyd trwy'r broses penodiadau cyhoeddus:***

| |
|---|
| Beth Winkley |
| Sian Price |
| Grahame Guilford |
| Dai Davies |

***Cynghorwyr:***

| | |
|---|---|
| Guus Muijzers | Y Comisiwn Ewropeaidd, Y Gyfarwyddiaeth Gyffredinol dros Bolisi Rhanbarthol a Threfol |
| Susan Fleming | Y Comisiwn Ewropeaidd, Y Gyfarwyddiaeth Gyffredinol dros Gyflogaeth |
| Marek Beran | Y Comisiwn Ewropeaidd, Y Gyfarwyddiaeth Gyffredinol dros Amaethyddiaeth |
| Egle Puosiunaite | Y Comisiwn Ewropeaidd, Y Gyfarwyddiaeth Gyffredinol dros Amaethyddiaeth |

**Awdurdodau Rheoli Rhaglenni:**

| | |
|---|---|
| Peter Ryland | Prif Weithredwr, WEFO |
| Ruth Studley | Pennaeth yr Awdurdod Rheoli |
| Rob Halford | Pennaeth Cynllunio a Strategaeth, WEFO |
| Sue Price | Pennaeth Rhaglenni ERDF, WEFO |
| Geraint Green | Pennaeth Rhaglenni ESF, WEFO |
| Chriss O'Connell | Pennaeth Themâu Trawsbynciol |
| Kathryn Helliwell | Uwch-swyddog Ymchwil, WEFO |
| Jon Mercer | Uwch-swyddog Tystiolaeth, WEFO |
| Tom Cartwright | Uwch-swyddog Ymchwil, WEFO |
| Mari Williams | Dirprwy Bennaeth Awdurdod Rheoli RDP |
| Cath Lawton | Uwch-reolwr Tystiolaeth, RDP |
| Hugh Morgan | Pennaeth yr Asiantaeth Dalu |
| Cath Cleaton | Ysgrifenyddiaeth |
| Aled Wright | Ysgrifenyddiaeth |
| Lois Wilson | Ysgrifenyddiaeth |

***Ymddiheuriadau:***

| | |
|---|---|
| Tim Render | Llywodraeth Cymru (Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol) |
| Martin Mansfield | TUC |
| Rhian Jardine | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Yr Athro Richard Davies | Addysg Bellach |
| Y Cynghorydd Rob Stewart | CLlLC |
| Arfon Williams | RSPB |

# Atodiad 1: Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop – Y Diweddaraf WPMC(19)164

## Adran 1: Rhaglenni Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop: Ymrwymiad

1. Mae’r adran hon yn rhoi manylion y cynnydd ariannol presennol o dan Raglenni Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, gan gynnwys trosolwg o’r Rhaglenni a gwybodaeth ar lefel Blaenoriaeth.
2. Mae Tabl 1 yn dangos nifer a swm y Grant Undeb Ewropeaidd a ymrwymwyd i Weithrediadau wedi’u cymeradwyo o dan Raglenni Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop Gorllewin Cymru a’r Cymoedd a Dwyrain Cymru.
3. Mae data cynnydd ar gyfer cyllid a dangosyddion yn cael eu cyhoeddi’n fisol ar Wefan WEFO yn https://llyw.cymru/cynnydd-y-rhaglenni-cronfeydd-strwythurol-yr-ue-2014-i-2020

## Tabl 1: Ymrwymiad Grant yr Undeb Ewropeaidd fesul Rhaglen a Blaenoriaeth: Gweithrediadau a Gymeradwywyd

£ Miliynau

| Blaenoriaeth | Gweithrediadau | Dyraniad | | Wedi’i neilltuo | | | | Gwariant | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Cyfanswm[1] | Grant yr UE[1] | Cyfanswm[2] | | Grant yr UE[2] | | Cyfanswm[3] | | Grant yr UE[3] | |
| **ERDF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd** | | | | | | | | | | | |
| 1 | 34 | 388.7 | 258.0 | 450.3 | (116%) | 258.0 | 100% | 125.6 | (32%) | 77.5 | (30%) |
| 2 | 8 | 284.8 | 177.8 | 314.0 | (110%) | 170.2 | 96% | 211.1 | (74%) | 109.3 | (61%) |
| 3 | 14 | 210.3 | 146.0 | 159.4 | (76%) | 100.5 | 69% | 44.5 | (21%) | 24.7 | (17%) |
| 4 | 40 | 652.6 | 428.5 | 770.8 | (118%) | 428.5 | 100% | 105.4 | (16%) | 54.0 | (13%) |
| 5 | 7 | 27.6 | 20.6 | 29.9 | (108%) | 20.6 | 100% | 10.8 | (39%) | 7.8 | (38%) |
| **Cyfanswm** | **103** | **1,564.0** | **1,030.9** | **1,724.3** | **(110%)** | **977.8** | **(95%)** | **497.4** | **(32%)** | **273.2** | **(26%)** |
| **ERDF Dwyrain Cymru** | | | | | | | | | | | |
| 1 | 19 | 172.3 | 86.2 | 191.4 | (111%) | 86.5 | 100% | 38.5 | (22%) | 15.7 | (18%) |
| 2 | 7 | 78.2 | 39.1 | 87.3 | (112%) | 39.1 | 100% | 66.3 | (85%) | 30.9 | (79%) |
| 3 | 1 | 8.3 | 4.1 | 7.1 | (86%) | 3.6 | 86% | 0.0 | (0%) | 0.0 | (0%) |
| 4 | 6 | 81.8 | 40.9 | 78.6 | (96%) | 39.3 | 96% | 18.8 | (23%) | 8.9 | (22%) |
| 5 | 6 | 7.0 | 3.5 | 8.3 | (119%) | 3.1 | 88% | 2.1 | (30%) | 1.0 | (28%) |
| **Cyfanswm** | **39** | **347.5** | **173.8** | **372.7** | **(107%)** | **171.5** | **(99%)** | **125.8** | **(36%)** | **56.5** | **(33%)** |
| **Cyfanswm ERDF** | **142** | **1,911.5** | **1,204.6** | **2,097.0** | **(110%)** | **1,149.3** | **(95%)** | **623.2** | **(33%)** | **329.7** | **(27%)** |

Ffynhonnell: SCEC, 31/08/2019

[1] Yn seiliedig ar gyfradd gyfnewid o £1:€1.17
[2] Mae’r canrannau’n dangos y swm sydd wedi’i neilltuo fel cyfran o’r dyraniad
[3] Mae’r canrannau’n dangos y gwariant fel cyfran o’r dyraniad

## Y Diweddaraf am y Rhaglenni

4. Mae’r ddwy Raglen Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop yn parhau i wneud cynnydd da gyda 142 o weithrediadau wedi’u cymeradwyo yn ymrwymo bron i £1,150 miliwn o grant yn cynrychioli 95% o werthoedd y rhaglen (95% Gorllewin Cymru a’r Cymoedd a 99% Dwyrain Cymru). Mae’r ymrwymiadau yn mynd rhagddynt yn dda. Bydd aelodau WPMC yn derbyn diweddariad pellach ar ymrwymiadau yn y cyfarfod ym mis Hydref.

5. Hyd yma, mae £271 miliwn (26% Gorllewin Cymru a’r Cymoedd) a £56 miliwn (32% Dwyrain Cymru) wedi’i dalu i noddwyr prosiectau Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop. Ar hyn o bryd, mae taliadau gan y Gronfa gwerth £18 miliwn ar gyfer Gorllewin Cymru a’r Cymoedd ac £8 miliwn ar gyfer Dwyrain

Cymru yn disgwyl cael eu hawdurdodi gan WEFO; ar ôl ystyried y rhain mae'r taliadau i noddwyr yn codi i £289 miliwn (29%) yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd a £65 miliwn (33%) yn Nwyrain Cymru.

6. Mae'r ffigurau gwariant y Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop hyn wedi arwain at dynnu cronfeydd i lawr gan y Comisiwn Ewropeaidd o 29% o'r dyraniad grant yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd a 33% o'r dyraniad grant yn Nwyrain Cymru sy'n uwch na chyfartaledd yr UE o 23%.

7. Mae Rhaglenni Dwyrain Cymru a Gorllewin Cymru a'r Cymoedd bellach wedi bodloni targedau N+3 2019 ac yn gwneud cynnydd tuag at gyflawni targedau 2020.

8. Mae Targedau'r Gronfa Wrth Gefn ar gyfer Perfformiad ledled y ddwy Raglen Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop wedi'u cyflawni heblaw am y targed ariannol ar gyfer y Flaenoriaeth Ynni yn Nwyrain Cymru. Mae'r Pwyllgor Monitro Rhaglenni wedi cael ei hysbysu am hyn mewn Adroddiadau Diweddaru blaenorol a chadarnhawyd hyn drwy Benderfyniad a wnaed gan y CE ar 13 Awst 2019, ar ôl cwblhau'r Adolygiad Perfformiad. Mae'r rheoliadau yn gofyn am gyflwyno addasiad i'r CE, ar ôl i'r Pwyllgor Monitro Rhaglenni gytuno, o fewn tri mis i'r Penderfyniad hwnnw i ailddyrannu elfen y gronfa wrth gefn ar gyfer perfformiad P3 gwerth tua £250,000 o Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop i rannau eraill o'r rhaglen.

## Adran 2: Echelin Cynnydd yn ôl Blaenoriaeth

### Blaenoriaeth 1: Ymchwil ac Arloesi

### Cymeradwyaethau ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Monitro Rhaglenni

| | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | | Dwyrain Cymru | |
|---|---|---|---|---|
| | Cyfanswm | Grant yr UE | Cyfanswm | Grant yr UE |
| Canolfan Prosesu Signalau Digidol (DSP) | £5.95m | £3.92m | | |
| Canolfan Caerdydd ar gyfer Roboteg DA a Systemau Peiriannau Dynol (IROHMS) | | | £3.75m | £1.87m |
| Flexisapp (Arddangoswr Masnachol) | £4.48m | £2.95m | | |
| Sefydliad Heneiddio Creadigol Prifysgol Abertawe | £3.85m | £2.59m | | |
| Labordy Arloesi Cyfreithiol Cymru Prifysgol Abertawe | £5.67m | £3.99m | | |

9. Mae’r flaenoriaeth wedi’i hymrwymo’n llawn bellach yn Nwyrain a Gorllewin Cymru. Mae llawer o alw wedi bod am gronfeydd sydd ar gael ar gyfer Ymchwil ac Arloesi wedi’i arwain gan bwysigrwydd strategol arbenigo deallus. Mae Gwarant Trysorlys y DU yn caniatáu datblygu gweithrediadau gyda chymeradwyaethau yn cael eu gwneud hyd at fis Rhagfyr 2020 sydd wedi darparu rhywfaint o hyblygrwydd i ystyried y gweithrediadau hynny sy’n cael eu datblygu sydd o natur dechnegol a chymhleth, gyda chyfleoedd i neilltuo ymrwymiadau pellach, pe bai adnoddau’n dod ar gael.

10. Mae’r portffolio Ymchwil ac Arloesi yn cael ei arwain gan yr agenda arbenigo deallus sy’n cael ei adlewyrchu yn y gweithrediadau asgwrn cefn a gymeradwywyd law yn llaw â gweithrediadau arbenigol unigol. Mae’r portffolio yn cynnwys 53 o weithrediadau sydd wedi’u cymeradwyo ac mae llawer ohonynt wedi bod yn dechnegol iawn eu natur i’w cymeradwyo, ac mae 1 cynnig wrthi’n cael ei ddatblygu. Er mwyn cyflawni’r agenda arbenigo deallus, mae angen i’r portffolio o weithrediadau gadw at eu cynlluniau cyflawni, eu cyllideb a gwario’r cronfeydd, elfen allweddol o reoli’r Flaenoriaeth hon o fewn y cysyniad cyffredinol o ofynion Rheoli Rhaglen.

**Blaenoriaeth 2: Cystadleurwydd ymhlith BBaChau**

**Cymeradwyaethau ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Monitro Rhaglenni**

11. Nid fu cymeradwyaethau newydd ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Monitro Rhaglenni.

12. Un o’r risgiau allweddol ar gyfer y portffolio hwn yw buddsoddi lefelau sylweddol o gyllid mewn teulu agos o weithrediadau. Er bod hyn yn gwneud synnwyr perffaith yn strategol, mae’n golygu bod aliniad agos iawn rhwng gweithrediadau o ran cyflawni, cadw at y gyllideb a gwario’r cronfeydd sydd ar gael. Yn sgil hynny, mae gweithrediadau wedi datblygu ffyrdd agosach o weithio, er enghraifft proses trawsgyfeirio rhwng y cymorth busnes a ddarperir gan weithrediadau Cefnogi BBaChau yn Nwyrain Cymru a Gorllewin Cymru a’r Cymoedd a Banc Datblygu Cymru sy’n darparu cymorth ariannol drwy gronfa Busnes Cymru.

13. Mae Dwyrain Cymru wedi ymrwymo’n llawn bellach. Er nad oes llawer o gyllid ar ôl yng Ngorllewin Cymru a’r Cymoedd, mae WEFO yn croesawu trafodaethau ynghylch syniadau ‘arbenigol’ sy’n ychwanegu gwerth. Mae WEFO wedi cael cymeradwyaeth, mewn egwyddor, gan Fanc Datblygu Cymru a chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru i ddisodli £5 miliwn pellach o gyllid cyfatebol etifeddol yng Ngorllewin Cymru a’r Cymoedd.

**Blaenoriaeth 3: Ynni Adnewyddadwy ac Effeithlonrwydd Ynni**

**Cymeradwyaethau ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Monitro Rhaglenni**

| | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | | Dwyrain Cymru | |
|---|---|---|---|---|
| | Cyfanswm | Grant UE | Cyfanswm | Grant UE |
| Aráe Deeo Green Minesto | £18.23m | 12.63m | | |

14. Fel y nodir yn y tabl uchod, mae gweithrediad Ynni'r Môr pellach wedi'i gymeradwyo ers i'r Pwyllgor Monitro Rhaglenni gyfarfod ddiwethaf, gan arwain at ymrwymiad o 69% ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd erbyn hyn. Er bod rhywfaint o ffordd i fynd o hyd i cyn cael ymrwymiad llawn, mae cynnydd yn cael ei wneud yn y portffolio heriol hwn.

15. Mae ymestyn Gwarant Trysorlys y DU hyd ddiwedd Rhagfyr 2020 wedi galluogi mwy o hyblygrwydd i fynd i'r afael â datblygu gweithrediadau ym meysydd ynni'r môr ac ynni cymunedol. Mae WEFO wedi bod yn adolygu'r gweithrediadau hynny sydd ar y gweill i bennu'r rhai sy'n gallu dangos y gallu i gyflawni'n llawn erbyn diwedd 2023 i sicrhau y bydd cronfeydd yn cael eu defnyddio mor effeithiol â phosibl ar gyfer y rhaglen a'r sector. Bydd yr adolygiad hwn yn dod i'w gasgliad yn fuan a bydd yn rhagweld ymrwymiad llawn i'r flaenoriaeth neu'r angen i symud cronfeydd i feysydd eraill o'r rhaglen mewn pryd i ymrwymo a sicrhau darpariaeth lawn erbyn diwedd 2023.

16. Bydd angen cael cydsyniad y Comisiwn i addasu'r rhaglen os bydd angen ailddyrannu adnoddau, a byddai hyn yn digwydd yn gynnar yn 2020 os bydd ei angen. Mae nifer o brosiectau sy'n perfformio'n dda sydd mewn sefyllfa i wneud mwy gyda chyllid ychwanegol. Gallai Rhaglen Gorllewin Cymru a'r Cymoedd ymrwymo grant pellach i brosiectau sy'n perfformio'n dda ym Mlaenoriaeth 1 a Blaenoriaeth 2. Bydd Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop ychwanegol a ddyrennir i B1 yn cael ei defnyddio i ymestyn prosiectau a fydd yn dod i ben yn 2020/2021 ac sydd â'r potensial i gyflawni canlyniadau ychwanegol yn erbyn yr agendâu arbenigo deallus a charbon isel. Byddai adnoddau a ddefnyddir yn B2 yn cefnogi buddsoddiad pellach mewn BBaChau yn bennaf drwy Gronfa Fusnes Cymru gan sicrhau buddsoddiadau pellach mewn Busnesau.

17. Fel y rhagwelwyd, ni chyflawnodd Blaenoriaeth Dwyrain Cymru ei tharged Ariannol ar gyfer y Gronfa Wrth Gefn ar gyfer Perfformiad. Nid oes unrhyw effaith ar lefel rhaglen o fethu'r targed hwn gan y bydd adnoddau'n cael eu hailddyrannu nawr i feysydd eraill o'r rhaglen sy'n perfformio'n well. O ystyried dadymrwymo'r elfen cronfa wrth gefn ar gyfer perfformiad, bydd yr ymrwymiad yn 91%. Ni ragwelir unrhyw weithrediadau eraill ym mlaenoriaeth Dwyrain

Cymru felly bydd adnoddau sydd heb eu dyrannu'n cael eu hailddefnyddio fel y disgrifir uchod.

**Blaenoriaeth 4: Cysylltedd a Datblygu Trefol**

**Cymeradwyaethau ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Monitro Rhaglenni**

18. Ni fu cymeradwyaethau newydd ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Monitro Rhaglenni.

19. Mae Blaenoriaeth 4 Gorllewin Cymru a'r Cymoedd wedi'i hymrwymo'n llawn ar ôl buddsoddi £134 miliwn o Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop yn y Metro a dros £50 miliwn mewn 20 o weithrediadau Safleoedd ac Adeiladau sy'n cael blaenoriaeth ranbarthol. Mae'r gweithrediad Cyrchfannau Denu Twristiaeth Sylfaenol sydd wedi derbyn £27 miliwn o Gronfa Ddatblygu Rhanbarthol Ewrop wedi ymrwymo'n llawn yr holl gyllid sydd ar gael i 13 prosiect sy'n cael eu cyflawni ar hyn o bryd. Yn yr un modd, mae'r gweithrediad Adeiladu ar gyfer y Dyfodol hollbwysig yn parhau i gael ei ddatblygu a bellach mae £22.5 miliwn wedi'i ymrwymo i 17 prosiect. Mae WEFO yn gobeithio cymeradwyo gweddill y Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop a ddyfarnwyd i'r gweithrediad strategol hwn erbyn diwedd 2019. Yn y cyfamser, gofynnwyd i'r Timau Ymgysylltu Rhanbarthol flaenoriaethu un prosiect pellach yr un i lenwi'r bwlch yn achos unrhyw ddadymrwymo.

20. Yr heriau ar gyfer y portffolio wrth symud ymlaen fydd cadw pob gweithrediad ar y trywydd iawn o ran cyflawni, cyllideb a gwariant. Ychydig iawn o hyblygrwydd sydd i weithrediadau gwympo ar ei hôl hi o ran eu hamserlen gyflawni ac mae hyn yn risg i weithrediadau seilwaith gan fod angen cwblhau pob gweithrediad erbyn diwedd 2023. Gallai'r flaenoriaeth ddefnyddio'r cronfeydd ychwanegol cyfyngedig pe bai adnoddau ychwanegol ar gael yn brydlon. Yn y cyd-destun hwn, gofynnwyd i'r Timau Ymgysylltu Rhanbarthol gyflwyno nifer cyfyngedig o brosiectau wrth gefn i'w hystyried yn y dyfodol o bosibl.

21. Mae Dwyrain Cymru wedi ymrwymo 96% gydag oddeutu £31.5 miliwn o Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop yn cael ei ddyrannu i'r Metro. Bydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r adnoddau cyfyngedig heb eu neilltuo sy'n debygol o gael eu trosglwyddo i B1 Ymchwil ac Arloesi drwy addasu'r rhaglen yn y dyfodol. Fel gyda Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, y flaenoriaeth wrth symud ymlaen fydd sicrhau bod y gwaith o gyflawni prosiectau ar y trywydd cywir, o fewn y gyllideb a bod y gweithrediadau yn gwario'r cronfeydd sydd ar gael.

## Blaenoriaeth 5: Cymorth Technegol

### Cymeradwyaethau ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Monitro Rhaglenni

22. Ni fu cymeradwyaethau newydd ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Monitro Rhaglenni.

23. Mae pob gweithrediad Cymorth Technegol wedi'u cymeradwyo ac yn cael eu cyflawni. Nid oes materion penodol wedi'u codi ac mae'r Timau Ymgysylltu Rhanbarthol yn parhau i helpu WEFO mewn meysydd blaenoriaethu penodol.

## Adran 1: Rhaglenni Cronfa Gymdeithasol Ewrop: Ymrwymiad

1. Mae'r adran hon yn rhoi manylion y cynnydd ariannol presennol o dan Raglenni Cronfa Gymdeithasol Ewrop, gan gynnwys adolygiad o'r Rhaglenni a gwybodaeth ar lefel Blaenoriaeth.

2. Mae Tabl 1 yn dangos nifer a swm y Grant Undeb Ewropeaidd a ymrwymwyd i Weithrediadau wedi'u cymeradwyo o dan Raglenni Cronfa Gymdeithasol Ewrop Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru.

3. Mae data cynnydd ar gyfer cyllid a dangosyddion yn cael eu cyhoeddi'n fisol ar Wefan WEFO yn https://llyw.cymru/cynnydd-y-rhaglenni-cronfeydd-strwythurol-yr-ue-2014-i-2020

### Tabl 1: Ymrwymiad Grant yr Undeb Ewropeaidd fesul Rhaglen a Blaenoriaeth: Gweithrediadau a Gymeradwywyd

£ Miliynau

| Blaenoriaeth | Gweithrediadau | Dyraniad | | Wedi'i neilltuo | | | | Gwariant | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Cyfanswm[1] | Grant yr UE[1] | Cyfanswm[2] | | Grant yr UE[2] | | Cyfanswm[3] | | Grant yr UE[3] | |
| **ESF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd** | | | | | | | | | | | |
| 1 | 15 | 203.2 | 160.5 | 224.0 | (110%) | 164.3 | (102%) | 60.8 | (30%) | 40.4 | (25%) |
| 2 | 22 | 402.6 | 290.3 | 453.2 | (113%) | 280.0 | (96%) | 227.8 | (57%) | 100.1 | (34%) |
| 3 | 20 | 281.3 | 209.2 | 326.4 | (116%) | 224.1 | (107%) | 120.3 | (43%) | 71.1 | (34%) |
| 4 | 6 | 18.4 | 13.7 | 26.6 | (144%) | 15.4 | (113%) | 11.0 | (59%) | 5.7 | (42%) |
| 5 | 0 | 18.6 | 14.0 | 0.0 | (0%) | 0.0 | (0%) | 0.0 | (0%) | 0.0 | (0%) |
| **Cyfanswm** | **63** | **924.1** | **687.7** | **1,030.3** | **(111%)** | **683.9** | **(99%)** | **419.9** | **(45%)** | **217.3** | **(32%)** |
| **ESF Dwyrain Cymru** | | | | | | | | | | | |
| 1 | 8 | 54.8 | 27.4 | 41.9 | (76%) | 20.9 | (76%) | 11.5 | (21%) | 5.4 | (20%) |
| 2 | 15 | 152.0 | 73.6 | 225.7 | (148%) | 67.8 | (92%) | 110.7 | (73%) | 19.3 | (26%) |
| 3 | 12 | 112.5 | 56.3 | 143.6 | (128%) | 53.0 | (94%) | 47.0 | (42%) | 18.5 | (33%) |
| 4 | 5 | 7.0 | 3.5 | 5.8 | (84%) | 2.9 | (84%) | 2.6 | (38%) | 1.2 | (34%) |
| 5 | 0 | 26.6 | 13.0 | 0.0 | (0%) | 0.0 | (0%) | 0.0 | (0%) | 0.0 | (0%) |
| **Cyfanswm** | **40** | **352.9** | **173.8** | **417.0** | **(118%)** | **144.6** | **(83%)** | **171.9** | **(49%)** | **44.4** | **(26%)** |
| **Cyfanswm ESF** | **103** | **1,277.0** | **861.4** | **1,447.4** | **(113%)** | **828.6** | **(96%)** | **591.7** | **(46%)** | **261.7** | **(30%)** |

Ffynhonnell: SCEC, 31/08/2019

[1] Yn seiliedig ar gyfradd gyfnewid o £1:€1.17
[2] Mae'r canrannau'n dangos y swm sydd wedi'i neilltuo fel cyfran o'r dyraniad
[3] Mae'r canrannau'n dangos y gwariant fel cyfran o'r dyraniad

## Y Diweddaraf am y Rhaglenni

4. Mae ymrwymiad o 99% bellach yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd a 83% yn Nwyrain Cymru (96% gyda'i gilydd), sy'n golygu bod cyfanswm o £829 miliwn wedi'i ymrwymo bellach i fuddiolwyr. Mae dau weithrediad newydd wedi'u cymeradwyo ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Monitro Rhaglenni ynghyd â nifer o estyniadau i weithrediadau presennol i sicrhau mwy o effaith. Mae WEFO yn bwriadu ymrwymo'r £33 miliwn sydd ar ôl o Gronfa Gymdeithasol

Ewrop drwy gymysgedd o brosiectau newydd ac ymestyn prosiectau i gyflawni mwy dros amserlenni hirach.

5. Mae’r cronfeydd a dalwyd allan i fuddiolwyr yn £217 miliwn yng Ngorllewin Cymru a’r Cymoedd ac yn £45 miliwn yn Nwyrain Cymru - cyfanswm o £262 miliwn sy’n gyfwerth â 30% o gronfeydd y rhaglenni. Mae hyn wedi’i drosi yn ddatganiad grant i’r Comisiwn Ewropeaidd o 40% o’r dyraniad grant yng Ngorllewin Cymru a’r Cymoedd a 45% o’r dyraniad grant yn Nwyrain Cymru sy’n llawer uwch na chyfartaledd yr UE o 25.5% a chyfartaledd y DU o 22%.

6. Cyflawnwyd pob targed N+3 yn 2018 a chyflawnwyd 20 o 22 carreg milltir y fframwaith Perfformio ar gyfer 2018 gyda pherfformiad gwell na 100% ar gyfer y rhan fwyaf o dargedau. Yr eithriad oedd y Flaenoriaeth 5 newydd lle na chyflawnwyd y cerrig milltir ar gyfer cymeradwyo un gweithrediad ym mhob maes rhaglen gan fod y flaenoriaeth newydd hon wedi profi dechrau araf annisgwyl. Bydd y cronfeydd wrth gefn ar gyfer perfformiad ar gyfer Blaenoriaeth 5 yn cael eu hailddyrannu i Flaenoriaeth arall y Gronfa Gymdeithasol Ewrop.

7. Mae’r cymorth y mae gweithrediadau yn ei roi i gyfranogwyr yn mynd rhagddo’n dda. Hyd yma, mae mwy na 198,000 o gyfranogwyr wedi’u cofnodi (46% o’r targed cyffredinol). Mae dros 77,000 o gyfranogwyr wedi ennill cymwysterau ac mae mwy na 16,000 wedi cael cymorth i ddod o hyd i waith.

**Adran 2: Cynnydd fesul Blaenoriaeth**

**Blaenoriaeth 1: Trechu Tlodi drwy Gyflogaeth Gynaliadwy**

8. Ni fu cymeradwyaethau newydd ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Monitro Rhaglenni.

9. Dyfarnwyd Cronfa Gymdeithasol Ewrop ychwanegol o £8.1 miliwn (£7.9 miliwn yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd a £0.2 miliwn yn Nwyrain Cymru) i ymestyn ***Cynhwysiant Gweithredol Cymru***, dan arweiniad Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, i gefnogi 5,600 yn rhagor o gyfranogwyr economaidd anweithgar neu ddi-waith hirdymor (25 oed a hŷn) i ennill cymwysterau, dechrau gweithio neu gynyddu eu cyflogadwyedd drwy gwblhau lleoliad profiad gwaith neu fanteisio ar gyfle gwirfoddoli.

10. Dyfarnwyd Cronfa Gymdeithasol Ewrop ychwanegol o £4 miliwn (£3.1 miliwn yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd a £0.2 miliwn yn Nwyrain Cymru) i ehangu ***Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth***, dan arweiniad Llywodraeth Cymru, i gefnogi 400 o rieni economaidd anweithgar (25 oed a hŷn) i gael gwaith cynaliadwy, lle mai gofal plant yw'r prif rwystr.

11. Mae'r Flaenoriaeth wedi ei hymrwymo 102% bellach yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd a 76% yn Nwyrain Cymru gyda chyflenwad cadarn o gynigion ar gyfer prosiectau newydd a cheisiadau i ymestyn prosiectau cyfredol.

12. Mae'r perfformiad cyffredinol ar gyfer y Flaenoriaeth hon yn parhau yn galonogol gyda dros 39,000 o gyfranogwyr wedi'u cefnogi hyd yma, ar draws y ddwy raglen. Rhagwelir y bydd gweithrediadau a gymeradwyir yn helpu dros 130,000 o bobl (146% o dargedau Rhaglen Weithredol).

13. Mae perfformiad llwyddiannus hyd yma yn cynnwys helpu 20% o gyfranogwyr economaidd anweithgar i gael gwaith yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd (21% yn Nwyrain Cymru). I'r rhai sy'n cael eu heffeithio gan ddileu swyddi yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, mae 63% o gyfranogwyr wedi ennill cymhwyster i hybu eu cyflogadwyedd a chynyddu eu cyfleoedd gwaith.

14. Mae llawer o ddangosyddion eraill yn is na'r hyn roedd gweithrediadau wedi'i ragweld, yn aml oherwydd tanamcangyfrif yr amser a oedd ei angen i ddechrau arni a dod yn gwbl weithredol. Mae rhesymau eraill am gynnydd araf yn cynnwys oedi hirach na'r disgwyl rhwng ymrestru a sicrhau canlyniad cadarnhaol wrth weithio gydag unigolion sy'n wynebu sawl rhwystr sydd wedi hen ymwreiddio i weithio, ac effaith gwelliant yn sefyllfa'r farchnad lafur gyda lefelau isel o ddiweithdra a dileu swyddi ar gyflawni gweithrediadau.

15. Er ein bod yn croesawu amodau gwell yn y farchnad lafur, mae’n golygu bod rhaglenni Cronfa Gymdeithasol Ewrop yn gweithio fwyfwy gydag unigolion sydd bellach o’r farchnad lafur, sy’n aml wedi bod yn anweithgar yn economaidd am flynyddoedd lawer ac sydd angen lefelau dwys o gefnogaeth cyn iddynt fod yn barod am waith. Mae WEFO yn dal ati i fonitro a chefnogi gweithrediadau unigol i sicrhau gwelliannau.

**Blaenoriaeth 2: Sgiliau ar gyfer Twf**

16. Bu un gymeradwyaeth newydd yn y Flaenoriaeth hon ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Monitro Rhaglenni.

17. Yn Nwyrain Cymru, cymeradwywyd £1.3 miliwn o Gronfa Gymdeithasol Ewrop ar gyfer ***BioArloesedd Cymru***, dan arweiniad Prifysgol Aberystwyth, i gefnogi 193 o gyfranogwyr a gyflogir yn y diwydiannau bwyd amaeth a biodechnoleg yng Nghymru i ennill cymhwyster ôl-raddedig sy’n berthnasol i anghenion eu diwydiant.

18. Mae hyn yn golygu bod lefelau ymrwymiad ar gyfer y Flaenoriaeth wedi codi i 96% yng Ngorllewin Cymru a’r Cymoedd ac i 92% yn Nwyrain Cymru, gyda chyfanswm o £348 miliwn o gronfeydd yr Undeb Ewropeaidd eisoes wedi’i ymrwymo a dim ond £16 miliwn ar ôl i’w ddyrannu. Mae sawl cynnig yn parhau i gael eu datblygu ac mae posibilrwydd o ehangu mwy o weithrediadau presennol sydd wedi’u cymeradwyo i bara am gyfnodau hirach, yn amodol ar eu perfformiad.

19. Mae’r sefyllfa o ran perfformiad ar gyfer y flaenoriaeth hon yn parhau yn galonogol iawn. Mae adroddiadau ar gael am dros 99,000 o gyfranogwyr eisoes ac mae’r graddau cyflawni yn erbyn y rhan fwyaf o ddangosyddion yn gymharol agos i’r proffil. Mae nifer y cyfranogwyr sy’n hyfforddi ar lefel 3 ac uwch (SO2) yn uwch na’r rhai ar gyrsiau lefel sylfaen a chanolradd (SO1), ac mae hynny’n awgrymu cynnydd mewn anghenion sgiliau yn y gweithle. Mae mwy o fenywod yn cymryd rhan na dynion, yn enwedig yn y categori o gyfranogwyr gydag addysg uwchradd uwch lle mae’r nifer sy’n cymryd rhan wedi rhagori ar y cyfanswm o fenywod yr oedd disgwyl iddynt gymryd rhan yn y rhaglen yn barod.

20. Ar ôl i’r Comisiwn Ewropeaidd gytuno ar Addasu’r Rhaglen, roedd modd i ni ychwanegu Amcan Penodol newydd (SO 2.4) ar gyfer *Sgiliau Ymchwil ac Arloesi* at raglen Dwyrain Cymru ac mae dau weithrediad newydd eisoes wedi’u cymeradwyo o dan yr SO hwn. Mae’r addasiad hwn hefyd wedi datrys yr anawsterau blaenorol yn SO1 mewn perthynas â’r diffiniad o ‘dim

cymwysterau ffurfiol' gydag un dangosydd cyfunol yn cwmpasu dim cymwysterau neu gymwysterau isel bellach ar gyfer cofnodi yn yr SO hwn.

**Blaenoriaeth 3: Cyflogaeth a Chyflawniad Ieuenctid**

21. Bu un gymeradwyaeth newydd yn y Flaenoriaeth hon ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Monitro Rhaglenni.

22. Yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, cymeradwywyd £1.3 miliwn ar gyfer ***Gwell Swyddi, Gwell Dyfodol...... ar gyfer Pobl Ifanc mewn Risg o NEET***, rhan o gyfres integredig o weithrediadau, dan arweiniad Coleg Gŵyr Abertawe, i ddarparu dull strategol wrth ddarparu gwasanaeth cyflogadwyedd newydd yn Abertawe.

23. Dyfarnwyd Cronfa Gymdeithasol Ewrop ychwanegol o £3.8 miliwn (£1.2 miliwn yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd a £2.6 miliwn yn Nwyrain Cymru) i ehangu'r ***TRAC 11-24***, dan arweiniad Cyngor Sir Dinbych, i gefnogi 2,300 yn rhagor o bobl ifanc 11-24 oed a oedd wedi ymddieithrio rhag addysg ac a oedd mewn perygl o fod yn NEET (pobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant).

24. Yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, dyfarnwyd Cronfa Gymdeithasol Ewrop ychwanegol o £3.4 miliwn i ehangu ***Cynhwysiant Gweithredol Ieuenctid***, dan arweiniad Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, i gefnogi a datblygu 3,000 yn rhagor o bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant er mwyn iddynt allu symud ymlaen i gyflogaeth heb gefnogaeth.

25. Dyfarnwyd Cronfa Gymdeithasol Ewrop ychwanegol o £1.6miliwn (£1.2 miliwn yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd a £0.4 miliwn yn Nwyrain Cymru) i ehangu ***Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth***, dan arweiniad Llywodraeth Cymru, i gefnogi 300 yn rhagor o rieni ifanc 16-24 oed gyda gofal plant fel y prif rwystr i hyfforddiant cysylltiedig â gwaith neu gyflogaeth.

26. Mae'r Flaenoriaeth bellach wedi'i hymrwymo 107% yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd a 94% yn Nwyrain Cymru gyda chyflenwad cadarn o gynigion ar gyfer prosiectau newydd a cheisiadau i ymestyn prosiectau cyfredol.

27. Mae'r perfformiad cyffredinol ar gyfer y Flaenoriaeth hon yn parhau yn galonogol gyda dros 60,000 o bobl ifanc wedi'u cefnogi hyd yma, ar draws y ddwy raglen. Rhagwelir y bydd prosiectau a gymeradwyir yn helpu dros 146,000 o bobl (96% o dargedau Rhaglen Weithredol) a fydd yn cynyddu ymhellach ar ôl ymrwymo'r holl gronfeydd.

28. Mae'r uchafbwyntiau perfformiad hyd yma yn cynnwys helpu 30% o NEET i gael gwaith yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd (29% yn Nwyrain Cymru) a 30% i ennill cymwysterau yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd (33% yn Nwyrain Cymru).

29. Yn dilyn cymeradwyo tri phrosiect STEM (SO 3.3) yn 2018, mae 33% o'r bechgyn ifanc sydd wedi cymryd rhan (11-19 oed) ac 17% o'r merched ifanc sydd wedi cymryd rhan (11-19 oed) yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd yn cwblhau hyfforddiant mewn Mathemateg, Gwyddoniaeth, Peirianneg a Thechnoleg.

**Blaenoriaeth 4: Cymorth Technegol**

30. Ni fu cymeradwyaeth newydd ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Monitro Rhaglenni.

31. Mae pedwar Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol wedi'u sefydlu i helpu i wella'r ffordd rydym yn cyflawni a rheoli rhaglenni Cronfeydd Strwythurol Ewrop 2014-2020. Maent wedi'u lleoli yng Ngogledd Cymru, Canolbarth Cymru, Bae Abertawe a De Ddwyrain Cymru. Maent yn gweithio gyda Phartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol mewn perthynas â phrawfesur gweithrediadau arfaethedig o safbwynt rhanbarthol ac integreiddio gweithrediadau a gymeradwyir.

32. Mae'r holl weithrediadau Cymorth Technegol wedi'u cymeradwyo bellach.

**Blaenoriaeth 5: Diwygio gwasanaethau cyhoeddus a gwaith rhanbarthol**

33. Derbyniwyd cytundeb y Flaenoriaeth newydd hon ym mis Medi 2018 fel rhan o Addasu'r Rhaglen. Mae'r Flaenoriaeth yn canolbwyntio ar feithrin gallu ar gyfer gwaith rhanbarthol mewn gwasanaethau cyhoeddus ac mae'n gyfle i ddatblygu ymatebion rhanbarthol strategol i Ffyniant i Bawb, y Cynllun Gweithredu ar yr Economi a strategaethau allweddol eraill sy'n cyfeirio at yr angen am wella gwaith rhanbarthol.

34. Mae un ar ddeg gweithrediad yn y cam cynllunio busnes bellach. Law yn llaw â chynigion eraill sydd ar y gweill, mae gan y ceisiadau hyn y potensial i ddefnyddio'r rhan fwyaf o'r cronfeydd sydd ar gael dan y Flaenoriaeth newydd hon. Mae'r ceisiadau yn cynnwys cynnig ar gyfer pob rhanbarth dan arweiniad llywodraeth leol a ffocws ar ddatblygu economaidd, ynghyd â chynigion eraill

gan bartneriaid eraill. Disgwylir y cymeradwyaethau cyntaf dan y Flaenoriaeth hon erbyn diwedd y flwyddyn.

## Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig (RDP) 2014-2020

### Newyddion Diweddaraf am y Rhaglen Gyffredinol

1. Ar sail cyfradd gyfnewid cynllunio o £1:€1.18, yr ymrwymiad lefel polisi presennol ar gyfer y Rhaglen yw £832m (£556m o gyllid yr UE) sydd ychydig dros 100% o'r Rhaglen. Ar lefel prosiect, mae cyfanswm o £665m o gyllid wedi'i ymrwymo, sef ychydig dros 80% o gyllid £828m y Rhaglen. Mae cyfanswm gwariant y Rhaglen hyd yn hyn wedi cynyddu dros £32m ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Monitro Rhaglenni i £339m (£242m EAFRD), ac mae £136m o'r cyllid hwn yn ymwneud â thaliadau trosglwyddo Colofn I.

2. Ar ôl cymeradwyo'r ail addasiad, mae'r Rhaglen wedi cyflawni holl gerrig filltir y fframwaith perfformiad. Adroddir y sefyllfa derfynol yn erbyn targedau'r fframwaith perfformiad yn Adroddiad Gweithredu Blynyddol 2018, mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi penderfynu rhyddhau'r gronfa berfformiad ar gyfer Cymru.

3. Mae gwaith ar y trydydd addasiad yn parhau, mae trafodaethau cychwynnol wedi'u cynnal gyda'r Comisiwn gyda chyfarfod technegol wedi'i gynnal ym mis Medi. Ers diwygiad diwethaf y Rhaglen a gymeradwywyd yn gynharach eleni, bu'n rhaid adolygu dyraniadau'r Rhaglen cyfredol er mwyn caniatáu trefniadau pontio ar ôl BREXIT, yn enwedig y rheini sy'n ymwneud â arian ychwanegol a gweithgarwch amaeth-amgylcheddol o dan fesurau 10 ac 11 (Glastir). Cyhoeddwyd cynigion i'r Aelodau i gael eu barn.

### Tabl 1: Dyrannu, Gwario ac Ymrwymo

£ Miliynau

| Dyraniad[1] | | Wedi'i Neilltuo[2] | | | | Gwariant[2] | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CYFANSWM | EAFRD | CYFANSWM | | EAFRD | | CYFANSWM | | EAFRD | |
| 828 | 551 | 832 | *(100%)* | 556 | *(101%)* | 339 | *(41%)* | 242 | *(44%)* |

Ffynhonell: SCEC, 31-08-2019

[1] Seiliedig ar gyfradd gyfnewid cynllunio £1:€1.18
[2] Mae canrannau'n dangos cyfran y dyraniad

4. Cyhoeddir data ar berfformiad y Rhaglen bob mis ac mae ar gael yma.

**Newyddion Diweddaraf am y Cynllun**

Grant Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant yng Nghymru (ENRaW)

5. Bydd yr Aelodau'n ymwybodol o rywfaint o oedi wrth roi cymeradwyaeth lawn i brosiectau ENRaW sy'n gysylltiedig â'r Rhaglen Datblygu Gwledig. Mae hyn o ganlyniad i'r angen i sicrhau bod ein holl brosesau mewnol yn cydymffurfio'n llawn â gofynion yr UE. Mae hyn wedi'i gwblhau i raddau helaeth ond mae yna feysydd lle nad ydym yn gwbl fodlon bod y gyfatebiaeth yn ddigonol. Am y rheswm hwn, ac er mwyn cychwyn y prosiectau cyfredol yn llawn, penderfynwyd defnyddio cronfeydd domestig yn unig ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol. Wrth symud ymlaen mae angen i'r prosiectau hyn gael eu cefnogi drwy'r Rhaglen Datblygu Gwledig i sicrhau y caiff cronfeydd yr UE eu defnyddio'n llawn ac felly bydd angen iddynt ailymgeisio drwy WEFO ar-lein gan ddefnyddio prosesau safonol y Rhaglen Datblygu Gwledig.

6. Er mwyn hwyluso hyn, bydd ffenestr ymgeisio yn agor ym mis Tachwedd gyda'r bwriad o gael cymeradwyaethau mewn lle cyn diwedd Mawrth 2020. Bydd y prosiectau hyn yn gallu gwneud cais a, phe baent yn dymuno, yn diwygio gweithgareddau, allbynnau a chostau a chynyddu hyd y prosiect.

Partneriaeth Arloesi Ewrop (EIP)

7. Mae'r EIP wedi'i chyflwyno'n llwyddiannus yng Nghymru hyd yn hyn, gan hyrwyddo cyfranogiad gan ffermwyr sy'n dod ynghyd fel Grwpiau Gweithredol, gyda 127 o aelodau sy'n ffermwyr mewn 23 Grŵp Gweithredol cymeradwy. Mae cyfanswm o £900k wedi'i ddyfarnu rhwng y 23 grŵp, ar gyfartaledd o £39k fesul grŵp (uchafswm y cymorth sydd ar gael yw £40k).

Grant Busnes i Ffermydd (FBG)

8. Hyd hyn mae 99% o'r ymgeiswyr a gyflwynodd gais ar gyfer pumed ffenestr FBG wedi derbyn tua £5m.

9. Caeodd chweched ffenestr EOI FBG ar 12 Ebrill 2019. Cynigiwyd contractau i'r EOI's â'r sgôr uchaf (hyd at werth £1.5m). Derbyniodd 321 o ymgeiswyr cynnig contract gwerth cyfanswm o £1.3m. Er mwyn sicrhau gwariant llawn ar y gyllideb, cynhaliwyd dewis pellach a derbyniodd 27 ymgeisydd ychwanegol y cynnig contract. Mae gan y rhai a dderbyniodd y contract yn y rownd gyntaf o geisiadau tan 26 Medi 2019 i hawlio'r taliad ac mae gan y 27 ychwanegol a dderbyniodd yn yr ail rownd tan 29 Hydref 2019.

Y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd (FBIS)

10. Cyhoeddwyd canlyniad y seithfed ffenestr FBIS ar 6 Medi 2018. Cyfanswm cost y 51 prosiectau o'r Datganiadau o Ddiddordeb a dderbyniwyd oedd

£35.5m. Mae 10 wedi cael gwahoddiad i gyflwyno ceisiadau llawn erbyn y dyddiad cau, 19 Chwefror 2020.

Glastir

11. Yn dibynnu ar statws contract Glastir, cynigir estyniadau neu adnewyddiadau yn yr Hydref yn dilyn cyhoeddiad yr Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig i ymestyn yr holl gontractau Uwch, Tiroedd Comin ac Organig presennol. Mae'r rhain er mwyn cynorthwyo'r trosglwyddiad rhwng cynlluniau cyfredol a'r cynlluniau rheoli tir newydd. Bwriedir agor rownd arall o Glastir - Greu Coetir ar 30 Medi 2019 a chau ar 8 Tachwedd 2019.

Trosglwyddo Gwybodaeth ac Arloesi (KT&I)

12. Mae'r rhaglen KT&I well yn parhau i helpu i weddnewid rhagolygon busnes miloedd o ffermwyr a choedwigwyr. Ar 31 Awst 2019, roedd cyfanswm o 10,541 o Fusnesau gyda 21,237 o unigolion wedi'u cofrestru ar y rhaglen. Mae rhagor o wybodaeth am gyflwyno rhaglen Cyswllt Ffermio ar gael yma.

LEADER

13. Pwrpas yr estyniad yw darparu cymorth i alluogi trosglwyddo i drefniadau ariannu yn y dyfodol. Mae ' r sefyllfa ' n gymhleth oherwydd y rheolau sy'n ymwneud â chyfran y cyllid ar gyfer staffio yn erbyn cyflenwi. Mae swyddogion wedi bod yn gwneud gwaith sylweddol i ddeall proffil cyflenwi'r cronfeydd presennol rhwng nawr a dyddiad gwreiddiol N+3, sef diwedd 2023.

14. Rydym am sicrhau'r defnydd gorau o arian cyhoeddus ac rydym wedi ymrwymo i archwilio opsiynau a fydd yn caniatáu ailddyraniad mewn ffordd sy'n bodloni ' r rheolau cyfredol.

Y Cynllun Cynghori Busnesau Gwledig (RBAS)

15. Mae RBAS yn darparu cyngor arbenigol, annibynnol, cyfrinachol a phwrpasol ar gyfer busnesau Cyswllt Ffermio cofrestredig. Erbyn 31 Awst 2019, roedd cyfanswm o 2,932 o fusnesau wedi manteisio ar gymorth busnes a/neu gyngor technegol, yn unol â'u hanghenion busnes. Bu cynnydd sylweddol yng ngwasanaethau cynghori seiliedig ar grwpiau, ac mae 1,758 o unigolion wedi derbyn cymorth o ganlyniad i ymgysylltu â 596 o grwpiau.

Y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Gwledig (RBIS)

16. Caeodd y chweched ffenestr RBIS ar 3 Rhagfyr 2018. O'r tri cais a wahoddwyd i wneud cais, cyflwynwyd dau gais llawn erbyn y dyddiad cau ac mae cyfanswm y grant a gymeradwywyd ar gyfer y prosiectau hynny yn £72k.

17. Caeodd y seithfed ffenestr RBIS ar 26 Chwefror 2019. O'r 16 cais a wahoddwyd i wneud cais, cyflwynwyd saith cais llawn erbyn y dyddiad cau. Cymeradwywyd 4 cais llawn gyda chyfanswm grant gwerth £151k, mae 3 cais dal yn cael eu gwerthuso.

Y Cynllun Rheoli Cynaliadwy (SMS)

18. Agorodd y bumed ffenestr SMS ar 21 Mai 2019, ac mae dyraniad o £3m ar gael. Decision notifications are planned for the 8 October 2019.

Grant Cynhyrchu Cynaliadwy (SPG)

19. Daeth pumed ffenestr SPG i ben ar 12 Ebrill 2019. O'r 280 o EOI’s a wahoddwyd, mae 200 o ymgeiswyr wedi derbyn ac mae ganddynt 6 mis i gyflwyno eu ceisiadau llawn ar gyfer gwerthusiad technegol.

20. Agorwyd y chweched ffenestr SPG ar 2 Medi 2019 gyda dyraniad o £8m ar gael. Mae'r ffenestr hon yn cau ar 11 Hydref 2019.

Y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Pren (TBIS)

21. Mae ffenestr y pedwrydd cylch o ddatganiadau o ddiddordeb wedi cau bellach. Gofynnwyd i 13 o’r 31 datganiad o ddiddordeb a dderbyniwyd ddatblygu eu ceisiadau a chyflwyno cais llawn am grantiau sy’n werth cyfanswm o £1.9m.

**Y Diweddaraf am Gymorth Technegol**

22. Mae pob un o’r wyth prosiect yn cyflawni yn unol â’r disgwyl, ac roedd cyfanswm gwariant o £12.1m wedi’i hawlio erbyn diwedd mis Awst 2019.

**PWYLLGOR MONITRO RHAGLENNI CYMRU, CRONFEYDD STRWYTHUROL A BUDDSODDI EWROPEAIDD 2014 – 2020:**

**GWEITHREDU'R THEMA DRAWSBYNCIOL: DATBLYGU CYNALIADWY**

**Mater**

1. Mae'r papur hwn yn darparu'r adolygiad blynyddol o gynnydd o ran gweithredu Thema Drawsbynciol Datblygu Cynaliadwy fel rhan o Raglenni Cyllid Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd ERDF ac ESF 2014 – 2020.

**Argymhelliad**

2. Gwahoddir aelodau i nodi cynnwys yr adroddiad a rhoi sylwadau yn unol â hynny.

**Cefndir**

3. Datblygu Cynaliadwy yw un o'r tair Thema Drawsbynciol sydd wedi'u hintegreiddio yn Rhaglenni 2014-2020. Mae'r Rheoliadau Cyffredinol sy'n llywodraethu'r Rhaglenni Ewropeaidd yn nodi bod yn rhaid i'r holl weithrediadau a ariennir drwy'r Fframwaith Strategol Cyffredin integreiddio Datblygu Cynaliadwy o dan Erthygl 8. Mae'r Rheoliadau'n nodi y bydd aelod-wladwriaethau a'r Comisiwn yn sicrhau bod gofynion o ran diogelu'r amgylchedd effeithlonrwydd adnoddau, lliniaru ac addasu newid yn yr hinsawdd, bioamrywiaeth, gwydnwch mewn trychineb, ac yn cael eu hatal a rheoli risg hyrwyddo wrth baratoi a gweithredu Cytundebau Partneriaeth a rhaglenni.

**Dangosyddion Datblygu Cynaliadwy**

4. Mae dangosyddion y Thema Drawsbynciol Datblygu Cynaliadwy, y cytunwyd arnynt â'r Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer Rhaglenni Gweithredol ERDF ac ESF cyfredol, fel a ganlyn:

   - “Mentrau sy'n mabwysiadu neu'n gwella strategaethau datblygu cynaliadwy a systemau monitro”

   - “Gweithrediadau sy'n integreiddio datblygu cynaliadwy i mewn i raglenni codi ymwybyddiaeth, addysg a hyfforddiant”

5. Mae'r wybodaeth a ddangosir yn **Atodiad 1** yn rhoi canllaw defnyddiol ar nifer y gweithrediadau sy'n cyflawni yn erbyn y dangosyddion ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd.

6. Mae gweithrediadau ESF yn parhau i weithio tuag at ddangosydd y rhaglen datblygu cynaliadwy ac mae'r wybodaeth a ddangosir yn **Atodiad 2** yn

dangos y prosiectau sydd eisoes wedi hawlio'r dangosydd hwn fel rhan o'r broses cynnydd ac hawliadau

**ERDF Blaenoriaeth 1 - Pecyn Cymorth Paratoi at y Dyfodol mewn Arloesedd Smart**

7. Mae'r Pecyn yn fyw ers 3 Medi. Drwy ddefnyddio'r pecyn cymorth bydd cwmnïau'n gosod llinell sylfaen ar gyfer eu sefyllfa bresennol o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth, datblygu cynaliadwy ac effeithlonrwydd adnoddau, a chyda chymorth dolenni i adnoddau defnyddiol ac astudiaethau achos nodi cyfleoedd i ddatblygu a/neu wella eu busnesau a'u helpu i ymdopi â newidiadau yn well yn y dyfodol. Bydd unrhyw fusnesau sy'n edrych am gymorth gan weithrediadau a ariennir drwy Flaenoriaeth 1.2 ERDF (a Blaenoriaeth 1.1 yn y dyfodol) yn cael eu cyfeirio at y pecyn cymorth. Pan fydd cwmni wedi cwblhau ei asesiad llinell sylfaen, bydd yn cael ei atgyfeirio'n awtomatig at Gynghorwyr Effeithlonrwydd Adnoddau ac Adnoddau Dynol yn Busnes Cymru a fydd yn ei gynorthwyo i wneud unrhyw welliannau neu newidiadau a nodwyd.

8. Gall gweithrediadau Blaenoriaeth 1 ddarparu ystod o weithgareddau sy'n cefnogi amcanion themâu trawsbynciol y rhaglen ERDF. Ond yn unol â chanllawiau WEFO, mae'r Pecyn Cymorth Paratoi at y Dyfodol yn darparu porth ar gyfer cyfeirio holl gymorth themâu trawsbynciol Blaenoriaeth 1 yn ymwneud â'r dangosyddion rhaglen 'Mentrau sy'n mabwysiadu neu'n gwella strategaethau cydraddoldeb gan gynnwys systemau monitro' a 'Mentrau sy'n mabwysiadu neu'n gwella strategaethau datblygu cynaliadwy'.

**Dangosyddion Lefel Prosiect y Thema Drawsbynciol**

9. Yn ogystal â dangosyddion ffurfiol y Thema Drawsbynciol, mae cynnwys dangosyddion lefel achos (y cytunwyd arnynt yng nghyfarfod PMRh yn 2015) yn ysgogiad pwysig o ran annog gweithrediadau i fynd i'r afael â'r Thema Drawsbynciol hon ac yn golygu y gellir monitro cynnydd systematig dros oes y rhaglen.

10. Mae’r wybodaeth yn **Atodiad 3** yn rhoi syniad o’r math o weithgarwch sy’n cefnogi’r CCT Datblygu Cynaliadwy. Mae’r data a ddarperir yn cynnwys cymhariaeth â’r data a ddarparwyd yn yr adroddiad blynyddol diwethaf yn dangos y cynnydd a wnaed dros y cyfnod. Fodd bynnag, dylid nodi bod ffigurau mis Awst 2019 a ddarperir yn Atodiad 3 yn deillio, am y tro cyntaf, o System Rheoli Gwybodaeth am Rhaglenni a Phrosiectau (PPIMS). Mae adroddiadau blaenorol wedi defnyddio’r ffigurau a gedwir yng nghronfa ddata Asesu’r CCT. Mae data PPIMS, gyda llawer ohono wedi’u ychwanegu yn ddiweddarach (gan mai dim ond ym mis Mehefin 2015 y cafodd Dangosyddion Lefel Achos y CCT eu cymeradwyo gan y PMC), yn dechrau dal i fyny, a dylai’r ffigurau fod yn gyfredol erbyn diwedd y flwyddyn.

11. Ym Mhwyllgor Monitro'r Rhaglen ym mis Medi 2018, rhoddwyd gwybodaeth i aelodau ynglŷn â dau o weithrediadau Prifysgol Abertawe a oedd wedi

defnyddio Dangosyddion Lefel Prosiect y themâu trawsbynciol i arddangos eu manylion datblygu cynaliadwy. Mae'r gweithrediadau hyn wedi'u cwblhau bellach ac mae eu cyfraniad at ddatblygu cynaliadwy yn amlwg.

EFFAITH: Wal 'fyw' werdd

- Integreiddio seilwaith gwyrdd
- Cefnogi bioamrywiaeth ar safle a ariennir drwy gronfeydd strwythurol



Y Ffowndri Gyfrifiadurol – iard gwlyptir

- Integreiddio seilwaith gwyrdd
- Cefnogi bioamrywiaeth ar safle a ariennir drwy gronfeydd strwythurol



12. Enghraifft [...] ddion Lefel Prosiect Da[...]ristiaeth

Blaenoriaeth 4, ERDF, a ddarperir drwy'r sefydliad cyswllt Croeso Cymru. Gyda chyfres o 13 o brosiectau ledled Cymru gyda'r nod o wella cyrchfannau i ymwelwyr, nod y gweithrediad yw darparu gweithgareddau a fydd yn cefnogi'r dangosyddion a ganlyn:

| Case Level CCT Indicators | |
|---|---|
| **SD** | • Datblygu cod ecolegol<br>• Datblygu cadwyn gyflenwi leol<br>• Integreiddio seilwaith gwyrdd<br>• Integreiddio seilwaith glas<br>• Hybu bioamrywiaeth ar safle a ariennir drwy'r Gronfa Gymdeithasol<br>• Datblygu cynllun teithio sefydliadol a mentrau trafnidiaeth gynaliadwy<br>• Mesurau i ddefnyddio adnoddau'n effeithiol<br>• Cynlluniau rheoli amgylchedd safle<br>• Rhagoriaeth BREEAM lle y bo'n berthnasol<br>• Adeiladau'n cyrraedd safonau CEQUALL<br>• Defnyddio Systemau Draenio Trefol Cynaliadwy (SUDs) lle y bo'n berthnasol |

| | |
|---|---|
| **CCT General** | • Datblygu / ymgysylltu â Hyrwyddwyr Thema Drawsbynciol<br>• Integreiddio cymalau cymdeithasol<br>• Cyflwynwyd rhaglen hyfforddi staff thema drawsbynciol<br>• Gweithgarwch arfer da o ran ymgysylltu â rhanddeiliaid |

**<u>Ffocws prosiect: Pentywyn – Canolfan Ymwelwyr Cyflymder</u>**

13. Un o'r 13 prosiect unigol yw'r Ganolfan Ymwelwyr Cyflymder ym Mhentywyn. Mae'r prosiect hwn, a fydd yn creu atyniad newydd i ymwelwyr ar lan y môr, yn cynnwys yr elfennau datblygu cynaliadwy a ganlyn:

- Defnyddio ffynonellau ynni adnewyddadwy
- Defnyddio deunydd wedi'i ailgylchu; a chasglu dŵr glaw
- Bydd yr adeilad yn cael ei gynllunio i safonau Passiv Haus a fydd yn golygu lleihau costau ynni i tua 90% o gostau adeilad o adeiladwaith arferol.
- Bydd y defnydd o olau dydd ac awyriad naturiol wedi'i gynnwys yn y dyluniadau.
- Bydd y tirweddu ar y safle yn cynnwys arglawdd glaswellt, coetir, prysgwydd a glaswelltir twyni arfordirol, coed  dynodi llwybrau, a phlannu blodau arfordirol a planhigion cysgodi/creu meicrohinsawdd.





14. Rydym yn parhau i dderbyn adborth cadarnhaol gan randdeiliaid ar gynnwys y mecanwaith hwn sy’n eu galluogi i ddangos y cyfraniad y maent yn ei wneud, trwy eu gweithgareddau, at y CCTs.

**Cysylltiadau Cyhoeddus a'r Cyfryngau**

15. Mae'r tîm Themâu Trawsbynciol yn parhau i ystyried ffyrdd o roi cyhoeddusrwydd i'r ffordd y mae gweithrediadau'n integreiddio'r Themâu Trawsbynciol yn y gwaith o'u dylunio a'u cyflawni. Gan weithio gyda Thîm Cyfathrebu WEFO, y nod yw codi proffil y Themâu Trawsbynciol a dangos y gwerth ychwanegol y maent yn ei gyflwyno i weithrediadau

16. Mae **Atodiad 4** yn dangos casgliad o drydariadau diweddar gan WEFO a nifer o ffeithluniau sy'n tynnu sylw at amrywiaeth o weithrediadau sy'n ymgorffori'r Themâu Trawsbynciol.

**Y camau nesaf**

17. Bydd adroddiadau yn y dyfodol yn dangos y cynnydd ar ddangosyddion ffurfiol y Thema Drawsbynciol datblygu cynaliadwy a gweithgarwch lefel prosiect ychwanegol, ochr yn ochr â manylion prosiectau penodol sy'n cyfrannu at yr agenda datblygu cynaliadwy.

**Drafftiwyd gan: Rhian Power-Battrick WEFO**
**Cymeradwywyd gan: Chriss O’Connell WEFO**
**Dyddiad: Medi 2019**

**Atodiad 1**

**Prosiectau sy’n cyfrannu at y dangosydd: *‘nifer y mentrau sy’n mabwysiau neu’n gwella’u strategaethau datblygu cynaliadwy a’u systemau monitro’* ar gyfer y thema drawsbynciol, Datblygu Cynaliadwy.**

| Teitl y Gweithrediad | Buddiolwr Arweiniol | Rhaglen | Rhagolwg | Cyflawnwyd hyd yma |
|---|---|---|---|---|
| Cymorth Entrepreneuriaeth - Busnes Cymru | Llywodraeth Cymru - Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth | Dwyrain Cymru | 185 | 95 |
| Cymorth BBaCh - Busnes Cymru | Llywodraeth Cymru - Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth | Dwyrain Cymru | 740 | 234 |
| Busnes Cymdeithasol Cymru | Canolfan Cydweithredol Cymru | Dwyrain Cymru | 50 | 40 |
| Cymorth Entrepreneuriaeth - Busnes Cymru | Llywodraeth Cymru - Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | 475 | 190 |
| Cymorth BBaCh - Busnes Cymru | Llywodraeth Cymru - Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | 1903 | 506 |
| Busnes Cymdeithasol Cymru | Canolfan Cydweithredol Cymru | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | 250 | 129 |
| SEACAMS 2 | Prifysgol Bangor | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | 20 | 10 |

*Ffynhonnell WEFO Awst 2019.*

**Atodiad 2**

**Prosiectau sy'n cyfrannu at y dangosydd: *'gweithrediadau sy'n integreiddio datblygu cynaliadwy mewn rhaglenni codi ymwybyddiaeth, addysg a hyfforddiant'* ar gyfer y thema drawsbynciol, Datblygu Cynaliadwy.**

| Teitl y Gweithrediad | Buddiolwr Arweiniol | Rhaglen | Rhagolwg | Cyflawnwyd hyd yma |
|---|---|---|---|---|
| KESS II | Prifysgol Bangor | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | 1 | 1 |
| Academi Deunyddiau a Gweithgynhyrchu | Prifysgol Abertawe | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | 1 | 1 |
| Sgiliau Cyflogwyr a Chyflogei-on | Coleg Cambria | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | 1 | 1 |
| Sgiliau Cyflogwyr a Chyflogei-on | Coleg Cambria | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | 1 | 1 |
| Sgiliau ar gyfer Diwydiant SO1 | Coleg Gwyr Abertawe | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | 1 | 1 |
| Sgiliau ar gyfer Diwydiant SO 2 | Coleg Gwyr Abertawe | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | 1 | 1 |
| Cyflawni drwy Brofiad Gwaith | Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | 1 | 1 |
| Ysbrydoli I Gyflawni | Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | 1 | 1 |
| METAL 2 | Prifysgol Abertawe | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | 1 | 1 |
| Tyfu Gweithleoedd drwy Ddysgu a Datblygu (GWLAD) | Prifysgol Cymru Y Drin-dod Dewi Sant | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | 1 | 1 |
| Welsh Financial Services Graduate Programme | Welsh Contact Centre Forum Ltd | Dwyrain Cymru | 1 | 1 |
| Cynnydd | Cyngor Sir Powys | Dwyrain Cymru | 1 | 1 |
| Cyflawni drwy Brofiad Gwaith | Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru | Dwyrain Cymru | 1 | 1 |
| Gweithffyrdd + | Cyngor Sir Powys | Dwyrain Cymru | 1 | 1 |
| Sgiliau Cyflogwyr a Chyflogei-on | Coleg Cambria | Dwyrain Cymru | 1 | 1 |
| Sgiliau Cyflogwyr a Chyflogei-on | Coleg Cambria | Dwyrain Cymru | 1 | 1 |

*Ffynhonnell WEFO Awst 2019*

**Atodiad 3 -**
**Mae'r tabl isod yn dangos ymrwymiad prosiectau i gynnwys gweithgareddau sy'n cyfrannu at ddangosyddion Datblygu Cynaliadwy:**

| ERDF | Gorffennaf 2018 | Awst 2019 |
|---|---|---|
| Datblygu cod ecolegol | 34 | 24 |
| Datblygu cadwyn gyflenwi leol | 59 | 40 |
| Integreiddio seilwaith gwyrdd | 31 | 14 |
| Integreiddio seilwaith glas | 19 | 7 |
| Hybu bioamrywiaeth ar safle a ariennir drwy'r Gronfa Gymdeithasol | 26 | 9 |
| Datblygu cynllun teithio sefydliadol a mentrau trafnidiaeth gynaliadwy | 60 | 39 |
| Mesurau i ddefnyddio adnoddau'n effeithiol | 73 | 49 |
| Cynlluniau rheoli amgylchedd safle | 37 | 19 |
| Rhagoriaeth BREEAM lle y bo'n berthnasol | 20 | 7 |
| Adeiladau'n cyrraedd safonau CEQUALL | 16 | 8 |
| Defnyddio Systemau Draenio Trefol Cynaliadwy (SUDs) lle y bo'n berthnasol | 26 | 11 |
| Cyfanswm | 401 | 227 |

| ESF | Gorffennaf 2018 | Awst 2019 |
|---|---|---|
| Datblygu cod ecolegol | 25 | 35 |
| Datblygu cadwyn gyflenwi leol | 18 | 15 |
| ~~Integreiddio seilwaith gwyrdd*~~ | ~~0~~ | ~~0~~ |
| ~~Integreiddio seilwaith glas*~~ | ~~0~~ | ~~0~~ |
| Hybu bioamrywiaeth ar safle a ariennir drwy'r Gronfa Gymdeithasol | 3 | 0 |
| Datblygu cynllun teithio sefydliadol a mentrau trafnidiaeth gynaliadwy | 37 | 27 |
| Mesurau i ddefnyddio adnoddau'n effeithiol | 50 | 50 |
| ~~Cynlluniau rheoli amgylchedd safle*~~ | ~~0~~ | ~~0~~ |
| ~~Rhagoriaeth BREEAM lle y bo'n berthnasol*~~ | ~~0~~ | ~~0~~ |
| ~~Adeiladau'n cyrraedd safonau CEQUALL*~~ | ~~0~~ | ~~0~~ |
| ~~Defnyddio Systemau Draenio Trefol Cynaliadwy (SUDs) lle y bo'n berthnasol*~~ | ~~0~~ | ~~0~~ |
| Cyfanswm | 133 | 127 |

* DS: Dangosydd lefel achos ddim yn briodol ar gyfer gweithrediadau

**Mae'r tabl isod yn dangos ymrwymiad prosiectau i gynnwys gweithgareddau sy'n cyfrannu at ddangosyddion y themâu trawsbynciol cyffredinol:**

| ERDF | Mawrth 2019 | Awst 2019 |
|---|---|---|
| Gweithgarwch arfer da o ran ymgysylltu â rhanddeiliaid | 24 | 26 |
| Datblygu / ymgysylltu â Hyrwyddwyr Thema Drawsbynciol | 68 | 79 |
| Integreiddio cymalau cymdeithasol | 35 | 39 |
| Pecyn offer thema drawsbynciol, dull gwaelodlin, datblygu Ap | 3 | 5 |
| Datblygwyd pecyn hyfforddiant thema drawsbynciol | 0 | 5 |
| Cyflwynwyd rhaglen hyfforddi staff thema drawsbynciol | 5 | 11 |
| Gweithgarwch yn cefnogi dangosyddion thema drawsbynciol (mewn Blaenoriaethau / Amcanion lle nad yw'r dangosyddion yn bresennol) | 5 | 5 |
| Cyfanswm | 140 | 170 |

| ESF | Mawrth 2019 | Awst 2019 |
|---|---|---|
| Gweithgarwch arfer da o ran ymgysylltu â rhanddeiliaid | 6 | 7 |
| Datblygu / ymgysylltu â Hyrwyddwyr Thema Drawsbynciol | 72 | 63 |
| Integreiddio cymalau cymdeithasol | 16 | 18 |
| Pecyn offer thema drawsbynciol, dull gwaelodlin, datblygu Ap | 2 | 2 |
| Datblygwyd pecyn hyfforddiant thema drawsbynciol | 0 | 10 |
| Cyflwynwyd rhaglen hyfforddi staff thema drawsbynciol | 9 | 0 |
| Gweithgarwch yn cefnogi dangosyddion thema drawsbynciol (mewn Blaenoriaethau / Amcanion lle nad yw'r dangosyddion yn bresennol) | 12 | 11 |
| Cyfanswm | 117 | 111 |

**Atodiad 4 – Cysylltiadau cyhoeddus a'r cyfryngau.**

**WEFO**
@wefocymru

Follow

Enghraifft ardderchog o seilwaith gwyrdd yn @Ffowndri #CyllidUE. Iard wlyptir i staff a myfyrwyr ei defnyddio, gan gynnwys gwesty bwystfilod bach sy'n gwella bioamrywiaeth Campws y Bae @Prif_Abertawe




3:01 am - 3 Apr 2019

# Seilwaith Strategol Llangefni

## Pecyn buddsoddi mewn seilwaith allweddol i hybu twf yr economi leol

Safleoedd ac unedau cwbl hygyrch sy'n cydymffurfio â'r rheoliadau anabledd ac yn ymdrechu i ddilyn yr arferion gorau.

**Adeiladau sy'n defnyddio ynni'n effeithlon a thechnoleg ynni adnewyddadwy ar y ddau safle:**

- Mannau gwefru cerbydau
- Bydd lle ar gael i gadw beiciau
- System draenio trefol gynaliadwy




Yn unol â pholisi Cyngor Ynys Môn ar y Gymraeg, caiff y cyfleoedd swyddi eu hysbysebu'n ddwyieithog a chynhelir y cyfweliadau yn Gymraeg neu yn Saesneg yn unol â dewis yr ymgeiswyr. Mae gwasanaeth gwybodaeth cwbl ddwyieithog ar gael.

**Cefnogi amryw o gamau gweithredu amgylcheddol:**

- Dyluniwyd gan ddefnyddio egwyddorion Rhagoriaeth BREEAM
- Yn defnyddio'r gadwyn gyflenwi leol
- Effeithlon o ran ynni, gydag inswleiddio ag aerglosrwydd da
- Technoleg ynni adnewyddadwy, gan gynnwys paneli ffotofoltäig ar bob uned
- Seilwaith gwyrdd sy'n hawdd ei gynnal a'i gadw, a phlannu er budd bioamrywiaeth






Cliciwch ar y logo isod i weld y wefan

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
European Regional Development Fund


WAVESUB
Mae Marine Power Systems Ltd wedi dylunio a gweithgynhyrchu prototeip ar raddfa 1:4 o droswr ynni'r tonnau WaveSub sydd bellach yn cael ei brofi.
Gan ddefnyddio symudiadau orbitol parhaus y tonnau, amcangyfrifir y bydd pob dyfais yn gallu pweru tua 5000 o gartrefi.
Defnyddir nwyddau a gwasanaethau cwmnïau lleol lle bo hynny'n bosibl
Mae WAVESUB yn cefnogi'r Agenda Themâu Trawsbynciol
Hyrwyddwr Themâu Trawsbynciol ar waith
Hyrwyddo cynlluniau rhannu ceir, opsiynau trafnidiaeth gyhoeddus a cherdded / beicio
Rhoi cefnogaeth i recriwtio staff sy'n siarad Cymraeg ac i ddarparu gwasanaeth cyhoeddus dwyieithog
Hyrwyddo'r defnydd o fideogynadledda a thelegynadledda i leihau'r angen i deithio
Ystod o fentrau i arbed ynni mewn swyddfeydd ar waith
De-gliciwch ar yr eicon isod i agor yr hyperddolen
MARINE POWER SYSTEMS
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
European Regional Development Fund

**SWYDDFA CYLLID EWROPEAIDD CYMRU**

**CYNLLUN GWYBODAETH A CHYHOEDDUSRWYDD DRAFFT AR GYFER 2018 / 2019**

## Mater

1. Dyma'r Cynllun Cyfathrebu ar gyfer 2019 a hyd at chwarter cyntaf 2020 ar gyfer rhaglenni Cronfeydd Strwythurol ERDF ac ESF 2014–2020. Mae'r cynllun yn nodi'r prif flaenoriaethau a mesurau gwybodaeth a chyhoeddusrwydd ar gyfer y cyfnod hwn, a sut y cânt eu cyflawni.

2. Oni nodir fel arall, mae'r wybodaeth ddiweddaraf yn y papur hwn yn cwmpasu'r cyfnod rhwng mis Medi 2018 a mis Medi 2019

## Argymhelliad

3. Nodi a chytuno y Cynllun Cyfathrebu 2019 a 2020.

## Cefndir

4. Paratowyd y cynllun hwn gan Awdurdod Rheoli'r rhaglenni, Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO). Cafodd ei lywio gan y Cynllun Cyfathrebu cyffredinol ar gyfer 2014-2020, y cytunwyd arno gan Bwyllgor Monitro Rhaglenni Cymru ym mis Mehefin 2015 ac mae'n ategu'r cynllun hwnnw.

## Trawsnewid Cymru

5. Mae Cymru yn parhau i fod mewn cyfnod o drawsnewid ac ar adeg pan fo ansicrwydd cynyddol ynghylch p'un a wnaiff y DU adael yr UE 'wedi dod i gytundeb' neu 'heb ddod i gytundeb', mae rhoi sicrwydd i randdeiliaid presennol a darpar randdeiliaid, a noddwyr, ein bod yn parhau i fod yn ymrwymedig i gyflawni'r rhaglenni, buddsoddi'r holl gyllid a ddyrannwyd, a rhannu buddiannau a chyflawniadau cronfeydd yr UE yng Nghymru yn flaenoriaeth allweddol o ran ein gweithgareddau cyfathrebu.

6. Drwy barhau i roi cyhoeddusrwydd i gyflawniadau a buddiannau cronfeydd yr UE i'n busnesau, cymunedau a phobl rydym hefyd yn gwneud achos cryf i Lywodraeth y DU dros gyllid yn ei le.

7. Gan weithio gyda'n noddwyr a'n rhanddeiliaid, rydym yn defnyddio nifer o sianeli cyfathrebu er mwyn rhoi cyhoeddusrwydd i gynnydd, cyflawniadau ac effaith: hysbysiadau yn y wasg / cyfryngau, cyfryngau cymdeithasol fel Twitter, YouTube, yr e-gylchlythyr, a mesurau gwefan, sy'n parhau i ddenu nifer gynyddol o ddilynwyr a chynyddu cyrhaeddiad ymhlith rhanddeiliaid a'r cyhoedd.

8. Ers y diweddariad cyfathrebu blynyddol diwethaf i Bwyllgor Monitro’r Rhaglenni ym mis Medi 2018, rydym wedi cyflawni 97% o sylw cadarnhaol ynglŷn â chronfeydd yr UE yn y wasg / cyfryngau. Hefyd, mae nifer y bobl sy'n tanysgrifio i'n e-gylchlythyr deufisol wedi cynyddu 22% o 6,120 i 7,500, ac mae nifer ein dilynwyr ar Twitter hefyd wedi cynyddu o 3,480 i 4,032.

9. Mae'r cyfnod cyn yr etholiad ar gyfer Senedd Ewrop a ddechreuodd ar 2 Mai wedi effeithio ar ein gweithgareddau a negeseuon cyhoeddusrwydd ar gyllid UE am gyfnod estynedig o amser (4 wythnos). Cafodd hyn hefyd effaith ar ein gweithgareddau cyhoeddusrwydd arferol i nodi Diwrnod Ewrop (9 Mai) ond gwnaethom gyfathrebu gyda'n noddwyr a'u cynghori i nodi Diwrnod Ewrop yn eu ffordd eu hunain gan nad oeddem ni'n gallu cynnal ymgyrch iddynt ei chefnogi.

10. Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda'r Tîm Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru i sicrhau bod yr holl gyhoeddusrwydd a chyfathrebu yn ystyried y negeseuon allweddol ar ddatblygu cronfa fuddsoddi rhanbarthol ar ôl Brexit, os yw'n briodol.

11. Byddwn yn cynnal ein digwyddiad gwybodaeth blynyddol ar 28 Tachwedd yng Nghaerdydd, lle byddwn yn parhau i hyrwyddo manteision cyllid yr UE, yn rhoi sicrwydd i randdeiliaid a noddwyr ein bod wedi ymrwymo i gyflawni rhaglenni a darparu gwybodaeth gyfredol ar waith datblygu'r cronfeydd buddsoddi rhanbarthol newydd ar ôl Brexit.

**Blaenoriaethau Gwybodaeth a Chyhoeddusrwydd ar gyfer 2019 a dechrau 2020**

12. Yn ddibynnol ar unrhyw newidiadau i ofynion cyfathrebu oherwydd y trefniadau cyllid ar ôl Brexit, bydd y prif flaenoriaethau gwybodaeth a chyhoeddusrwydd i hyrwyddo rhaglenni ERDF ac ESF ar lefelau cenedlaethol a rhanbarthol yn parhau fel a ganlyn:

- hyrwyddo'r gwaith o gyflawni cronfeydd yr UE yng Nghymru a'i fanteision, gyda chonsensws mwy cadarn o ran pwysigrwydd cronfeydd yr UE i ffyniant Cymru, symleiddio negeseuon, a chyflawni sgôr darllenadwyedd Cymraeg clir uchel;
- sicrhau bod noddwyr, partneriaid a rhanddeiliaid prosiectau cyflawni, gan gynnwys Timau Ymgysylltu Rhanbarthol, yn deall gofynion rheoliadol o ran hyrwyddo rhaglenni ac yn cydymffurfio â nhw, fel nad yw cronfeydd yr UE yn cael eu peryglu;
- sicrhau bod buddiolwyr presennol a darpar fuddiolwyr yn parhau i gael eu hysbysu am oblygiadau Brexit o ran rhaglenni a phrosiectau, e.e. cyfathrebu ynghylch Gwarant Trysorlys EM a hysbysiadau technegol Llywodraeth y DU ynghylch canlyniad 'dim cytundeb' yn sgil negodiadau Brexit;
- defnyddio effaith cronfeydd yr UE i ddylanwadu'n gadarnhaol ar benderfyniadau'r DU ar gyllid newydd ar gyfer Cymru er mwyn mynd i'r afael â heriau hirdymor, a sicrhau bod rhanddeiliaid, noddwyr a'r cyhoedd yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau o ran polisi economaidd rhanbarthol a buddsoddiadau yng Nghymru yn y dyfodol;
- yn ddibynnol ar drefniadau ar ôl Brexit, amlygu arwyddocâd Diwrnod Ewrop (9 Mai) drwy weithio gyda noddwyr prosiectau i hyrwyddo buddiannau prosiectau a rhaglenni'r UE;
- parhau i gynyddu proffil themâu trawsbynciol a'r gwerth ehangach a grëir gan brosiectau yn y meysydd hynny, gan gynnwys gwneud y defnydd mwyaf posibl o gyfleoedd allweddol fel y Diwrnod Rhyngwladol ar gyfer Dileu Gwahaniaethu ar Sail Hil;
- datblygu cyhoeddusrwydd i greu ymwybyddiaeth a diddordeb mewn unrhyw alwadau am gyllid newydd i gynorthwyo'r gwaith o gyflawni rhaglenni ESF ac ERDF yng Nghymru;
- trefnu digwyddiad blynyddol (28 Tachwedd) i ddathlu cyflawniadau'r rhaglenni;
- creu cyfleoedd cysylltiadau cyhoeddus i Weinidogion Cymru godi proffil cronfeydd yr UE ac effaith barhaus prosiectau a ariennir gan yr UE;

- datblygu cronfa ddata newydd o brosiectau a gymeradwywyd ar gyfer rhaglenni 2014–2020;
- cynyddu potensial technolegau digidol / cyfryngau cymdeithasol newydd, lle bo'n briodol;
- parhau i integreiddio cyfleoedd a llwyddiannau gyda rhaglenni cyllid eraill yr UE fel rhaglenni Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd a rhaglenni datblygu gwledig, a'r rhai a reolir yn uniongyrchol gan y Comisiwn Ewropeaidd, fel Horizon 2020, yn arbennig gan ein bod o'r farn y dylai Cymru barhau i elwa ar fynediad iddynt o'r tu allan i'r UE;
- gwerthuso effeithiolrwydd gweithgareddau a chynnwys cyhoeddusrwydd allweddol er mwyn llywio cyfathrebu yn y dyfodol.

**Mesurau**

13. Nodir y ffyrdd y caiff y blaenoriaethau hyn eu datblygu yn 2019/2020 yn y prif fesurau cyhoeddusrwydd yn **Atodiad A**. Mae hyn yn cynnwys trefniadau cyflawni a'r amserlen ar gyfer gweithredu.

**Prif weithgarwch gwybodaeth ar gyfer 2019 / dechrau 2020**

14. Rydym yn awr yn cyrraedd cyfnod olaf rhaglenni 2014–2020, gyda thua 96% o gronfeydd yr UE wedi'u hymrwymo a phrosiectau a gymeradwywyd yn cyflawni buddiannau a cherrig milltir sylweddol. Tra bydd cyhoeddiadau cyllido yn parhau i gael cyhoeddusrwydd, mae mwy a mwy o gyfleoedd i ddangos effaith bywyd go iawn y prosiectau hyn ar bobl, cymunedau a busnesau, a'r effaith sy'n deillio o hynny o ran helpu i wella ffyniant ac amodau'r farchnad lafur yng Nghymru.

15. Bydd mesurau i hyrwyddo gweithgareddau prosiectau yn parhau i gysylltu â gweithgareddau i hyrwyddo cyflawniadau'r rhaglenni'n gyffredinol a hefyd gyda'r gwaith a wneir i ddatblygu model polisi a buddsoddi rhanbarthol ar gyfer Cymru yn y dyfodol.

16. Mae gwaith hefyd yn mynd rhagddo i ddatblygu ein tudalennau gwe ar gronfeydd yr UE i gynnwys cronfa ddata o brosiectau a gymeradwywyd yn 2014–2020, gan ddarparu swyddogaethau hawdd eu defnyddio ychwanegol, fel map rhyngweithiol. Fodd bynnag, mae'r gwaith wedi cael ei oedi am fod Llywodraeth Cymru yn ei chyfanrwydd yn symud i system rheoli cynnwys newydd. Yn y cyfamser, caiff taenlen excel o brosiectau a ariennir gan yr UE a chynigion cynllunio busnes ei chyhoeddi bob mis ar ein tudalennau gwe sy'n rhagori ar ofynion rheoliadol yr UE.

17. Bydd WEFO yn parhau i weithio gyda Thimau Ymgysylltu Rhanbarthol / Tîm Ewropeaidd y Trydydd Sector i helpu i gyflawni Strategaeth Gyfathrebu a chynlluniau blynyddol 2014–2020 yn effeithiol, wrth iddynt barhau i chwarae rôl bwysig yn helpu i hyrwyddo'r rhaglenni a'r prosiectau ar lefel ranbarthol a lleol.

18. Gyda ffocws cynyddol ar drefniadau ar ôl Brexit, gweithio gyda’r tîm rhanbarthol a gwaith gyda thîm cyfathrebu canolog Llywodraeth Cymru ar negeseuon allweddol a gofynion cyfathrebu i’r dyfodol.

**Cynnydd hyd yma yn 2019**

19. Mae'r canlynol yn gipolwg ar weithgareddau cyfathrebu hyd yma:

- Sylw sylweddol i gyhoeddiadau cyllid yr UE yn y cyfryngau prif ffrwd, ar-lein a'r cyfryngau cymdeithasol gan gynnwys:
    - £5.7m o gyllid ESF ar gyfer prosiect Trio Sci Cymru, dan arweiniad Academi Wyddoniaeth Genedlaethol Llywodraeth Cymru i gynyddu nifer y bobl ifanc sy'n byw yn y Gogledd a'r Gorllewin ac yng Nghymoedd y de sy'n astudio pynciau STEM, a'u canlyniadau yn y pynciau hynny;
    - £1.7m o gyllid ERDF ar gyfer y prosiect Peirianneg Dylunio Uwch, dan arweiniad Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant i gefnogi mentrau bach a chanolig i wneud y mwyaf o'u defnydd o dechnoleg uwch i greu prosesau a chynnyrch newydd a gwell;
    - £1.2m o gyllid ESF ar gyfer rhaglen Limitless, dan arweiniad Threshold DAS i gefnogi menywod sydd wedi'u heffeithio gan gamdriniaeth ddomestig neu drais rhywiol i greu dyfodol iddyn nhw eu hunain;
    - £1.8m o gyllid ESF ar gyfer y prosiect JobSense, dan arweiniad Action on Hearing Loss Cymru ar gyfer gwasanaethau hyfforddiant a chyflogaeth arbenigol i bobl â nam ar y synhwyrau;
    - £9m o gyllid ERDF ar gyfer cynllun cynhyrchu, storio, defnyddio a chyflenwi ynni (GSCS) sy'n defnyddio technoleg batri o'r radd flaenaf i gynhyrchu a storio trydan o ffynonellau adnewyddadwy a charbon isel, a fydd wedyn yn cael ei ddosbarthu i fusnesau lleol am bris rhatach;
    - £3.7m o gyllid ERDF ar gyfer prosiect y Ganolfan Arbenigedd Ffotoneg, dan arweiniad Prifysgol Glyndŵr i greu rhwydwaith ymchwil ar raddfa byd eang i helpu'r diwydiant i groesawu technoleg ffotoneg wrth ddefnyddio laserau, synwyryddion a ffeibr optig;
    - £1.94m o gyllid ESF ar gyfer y cynllun Sgiliau@Gweithle, dan arweiniad Cyngor Dinas Casnewydd i fynd i'r afael â thlodi mewn gwaith a rhai o'r heriau sy'n wynebu gweithwyr sgiliau isel yn y De-ddwyrain.

  Mae manylion y sylw yn y cyfryngau / y wasg i'r prosiectau hyn a phrosiectau eraill wedi cael eu cynnwys yn ein bwletinau monitro, sy'n cael eu hanfon drwy e-bost bob yn ail fis fel arfer. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r cysylltiadau cyhoeddus a gynhyrchwyd gan WEFO wedi cyflawni 97% o sylw cadarnhaol yn y cyfryngau.

- Y tair stori newyddion ynghylch cronfeydd yr UE yr ymwelwyd â nhw fwyaf o ystafell newyddion ar-lein Llywodraeth Cymru oedd:
    - **Cyllid yr UE o £119 miliwn wedi'i sicrhau i ddatblygu Metro De Cymru**
      (fe'i gwelwyd 1026 o weithiau; 4 Hydref 2018)
    - **Prifysgol Caerdydd yn sicrhau £3.6m o gyllid yr UE ar gyfer cyfleuster ymchwil wyddonol newydd**
      (fe'i gwelwyd 900 o weithiau; 10 Mehefin 2019)
    - **£5.7m o gyllid yr UE i annog astudio pynciau STEM**
      (fe'i gwelwyd 823 o weithiau; 24 Medi 2018)

- Crëwyd cyfleoedd cysylltiadau cyhoeddus ar gyfer Gweinidogion i nodi cyhoeddiad, cyflawniad a cherrig milltir prosiectau; er enghraifft, aeth y Gweinidog Cyllid ar ymweliad â Chymorth i Ferched Cymru i gyhoeddi pecyn cyllid yr UE o £1.2m ar gyfer y prosiect Limitless ac agorodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol Ffowndri Gyfrifiadurol Prifysgol Abertawe yn swyddogol.

- Crëwyd cyhoeddusrwydd i hyrwyddo llwyddiant a cherrig milltir allweddol prosiectau gan gynnwys: y Cynllun Cymorth yn y Gwaith, ICE Cymru, KESS II, Ynni Tonnau Bombora, Cymunedau dros Waith, Cynllun Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth, Minesto Deep Green, CEMET, a Chynhwysiant Gweithredol;

- Mae themâu trawsbynciol yn canolbwyntio'n arbennig ar y cyfryngau cymdeithasol, gan gysylltu gweithgarwch themâu trawsbynciol prosiectau yng Nghymru ar gyfer digwyddiadau fel Wythnos y Ffoaduriaid, Diwrnod Amgylchedd y Byd, Diwrnod Cenedlaethol y Mudwyr, Mis Hanes Pobl Dduon, Diwrnod Rhyngwladol y Merched, Diwrnod Rhuban Gwyn, Diwrnod Rhyngwladol Merched Mewn Gwyddoniaeth, Wythnos Prydain Fawr Werdd, Wythnos Anableddau Dysgu, COP24, Diwrnod Rhynglwadol Pobl Anabl a'r Diwrnod Rhyngwladol ar gyfer Dileu Gwahaniaethu Hiliol.

  Er enghraifft, cafodd trydariadau am brosiectau STEM yn annog menywod a genethod yng Nghymru i gymryd rhan mewn gwyddoniaeth ar gyfer Diwrnod Rhyngwladol Merched mewn Gwyddoniaeth @WomenScienceDay 5,838 o argraffiadau (h.y. sawl gwaith y gwelodd pobl drydariad) a 72 o ymgysylltiadau (rhyngweithio â thrydariad e.e. clicio ar ddolen);

  Cafodd trydariad am brosiect Cynllun Cynhesu Caerau fel rhan o Wythnos Prydain Fawr Werdd - #GreenGBWeek, a oedd yn tynnu sylw at chwyldroi'r modd y mae ynni carbon isel yn cael ei gynhyrchu gan ddefnyddio dŵr cynnes o hen bwll glo i gynhesu tai lleol ac ysgol gynradd 4,010 o argraffiadau a 105 o ymgysylltiadau – un o'r trydariadau a berfformiodd orau y mis hwnnw.

- Ar 9 Hydref, cynhaliwyd seremoni wobrwyo flynyddol RegioStars ym Mrwsel i gydnabod arferion gorau yn yr UE. Nant Gwrtheyrn, canolfan iaith, diwylliant a threftadaeth Cymru yng Ngwynedd wnaeth ennill y brif wobr yn y categori Buddsoddi mewn Treftadaeth Ddiwylliannol ac roedd prosiect ASTUTE (Technolegau Gweithgynhyrchu Uwch Cynaliadwy) Prifysgol Abertawe ar y rhestr fer yn y categori Cefnogi Pontio Diwydiannol Clyfar.

- Mae ein cylchlythyr ar gronfeydd yr UE a gyhoeddir bob pythefnos wedi cyrraedd y nifer fwyaf erioed o danysgrifwyr, sef dros 7,500, sydd dros 1,300 yn fwy na'r llynedd;

- Cafodd dros 500 o drydariadau eu cyhoeddi ac mae ein sianel Twitter @wefowales / @wefocymru wedi cael dros 4,032 o ddilynwyr newydd. Y nifer gyfartalog o argraffiadau bob mis (h.y. sawl gwaith y gwelodd pobl drydariad ar Twitter) oedd 64,917 (ychydig dros 2,120 o argraffiadau bob dydd);

- Mae cyfleoedd cysylltiadau cyhoeddus ar gyfer rhaglenni a phrosiectau cyllid rhanbarthol hefyd yn cael eu cydlynu â rhaglenni cyllid eraill yr UE fel Horizon 2020; yma, caiff straeon llwyddiant eu rhannu drwy e-gylchlythyr rheolaidd Horizon 2020, digwyddiad blynyddol Horizon 2020 (4 Gorffennaf 2019) a Twitter.

**Penderfyniad**

20. Cymeradwyo'r Cynllun Cyfathrebu Blynyddol ar gyfer 2019/ 2020.

**Camau nesaf**

21. Y gangen Cyfathrebu i gyflawni i'r blaenoriaethau a nodir yn y cynllun Cyfathrebu a darparu diweddariad o'r cynnydd i'r Bwyllgor Monitro Rhaglenni yng Ngwanwyn 2020

**Lead: Jo Binding, Tîm Cyfathrebu a Briffio WEFO**
**Cymeradwyo gan: Sue Price, Pennaeth Rheoli Rhaglennu (ERDF)**
**Dyddiad: Medi 2019**

**Atodiad A**

**Prif Fesurau Gwybodaeth a Chyhoeddusrwydd ar gyfer 2019 / dechrau 2020**

| Mesur | Gwybodaeth Ychwanegol | Cyfrifoldeb Arweiniol | Amserlen ar gyfer Gweithredu |
|---|---|---|---|
| **Blaenoriaeth 1: Rhoi cyhoeddusrwydd i effaith a buddiannau rhaglenni cyllid yr UE sy'n buddsoddi mewn twf a swyddi cynaliadwy, gan gynnwys drwy gymeradwyaeth, lansiadau a chyflawniadau prosiectau, Diwrnod Ewrop, ac integreiddio'r Themâu Trawsbynciol** | **<u>Grŵp targed</u> – cyfryngau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol yn bennaf, partneriaid cyflawni a strategol, y Comisiwn Ewropeaidd a'r cyhoedd** | **Tîm Cyfathrebu WEFO** | **Camau gweithredu parhaus drwy gydol y flwyddyn** |
| 1.1 Rhannu straeon newyddion da â'r cyfryngau am gynnydd prosiectau a cherrig milltir rhaglenni ar gyfer sylw mewn print ac ar-lein, gan sicrhau dros 90% o sylw cadarnhaol yn y cyfryngau. | Mesurau cyhoeddusrwydd penodol i gynnwys:<br><br>- cyhoeddi datganiadau i'r wasg, erthyglau golygyddol am gymeradwyaethau a cherrig milltir prosiectau, a chynnydd cyffredinol rhaglenni i bapurau newydd, sianeli newyddion ar-lein a gwefan Llywodraeth Cymru<br><br>– darparu dyfyniadau Gweinidogol yn cynnwys negeseuon strategol allweddol ar gyfer datganiadau i'r wasg a ddatblygwyd gan noddwyr prosiectau/partneriaid | Tîm Cyfathrebu WEFO, ar y cyd â swyddfa'r wasg, noddwyr prosiectau, Timau Ymgysylltu Rhanbarthol / Tîm Ewropeaidd y Trydydd Sector ac ati | Camau gweithredu parhaus drwy gydol y flwyddyn |
| 1.2 Dylanwadu'n gadarnhaol ar y ffordd y caiff straeon yn ymwneud â chronfeydd yr UE a phrosiectau a ariennir gan yr UE eu hadrodd yn y cyfryngau | Mesurau penodol i gynnwys:<br><br>– darparu ymatebion cynhwysfawr ac amserol i ymholiadau gan y cyfryngau gan gynnwys cyd-destun cefndirol, ffeithiau allweddol, ystadegau, a dyfyniadau gan Lywodraeth Cymru | Tîm Cyfathrebu WEFO, ar y cyd â noddwyr prosiectau a swyddfa'r wasg | Camau gweithredu parhaus drwy gydol y flwyddyn |
| 1.3 Defnyddio technoleg newydd a sianeli digidol fel adnoddau | I'w cyhoeddi ar YouTube, Twitter a'u defnyddio mewn digwyddiadau, gan gynnwys y digwyddiad blynyddol (gweler 3.1 | Tîm Cyfathrebu WEFO, ar y cyd â noddwyr prosiectau, Timau | Camau gweithredu parhaus drwy gydol |

| Mesur | Gwybodaeth Ychwanegol | Cyfrifoldeb Arweiniol | Amserlen ar gyfer Gweithredu |
|---|---|---|---|
| cyfathrebu allweddol, gan gynnwys cynhyrchu lluniau digidol i hyrwyddo negeseuon allweddol, effaith rhaglenni, ac astudiaethau achos a cherrig milltir prosiectau | isod). Yn arbennig, paratoi a rhannu clipiau fideo o brosiectau, cyfranogwyr a datblygu graffigau o ffeithiau diddorol er mwyn sicrhau bod y cyhoeddusrwydd yn cael cymaint o effaith â phosibl | Ymgysylltu Rhanbarthol, Tîm Ewropeaidd y Trydydd Sector ac ati. | y flwyddyn |
| 1.4 Trefnu ymweliadau Gweinidogol â phrosiectau ledled Cymru – i nodi cyhoeddiadau cyllido, lansiadau a cherrig milltir cyflawni. | Mesurau cyhoeddusrwydd penodol i gynnwys:<br><br>– trefnu cyhoeddusrwydd ynglŷn ag effaith a manteision prosiectau (gan ganolbwyntio ar astudiaethau achos â diddordeb dynol), yn ogystal â chynnydd ehangach y rhaglenni drwy anfon datganiadau i'r wasg, trydariadau, tudalennau gwe cronfeydd yr UE, e-gylchlythyr ac ati. Cyhoeddi trydariadau a lluniau byw yn ystod ymweliadau a digwyddiadau er mwyn ymgysylltu ymhellach â chynulleidfa eang | Tîm Cyfathrebu WEFO, ar y cyd â swyddfa'r wasg Llywodraeth Cymru, noddwyr prosiectau, Timau Ymgysylltu Rhanbarthol / Tîm Ewropeaidd y Trydydd Sector ac ati | Camau gweithredu parhaus drwy gydol y flwyddyn |
| 1.5 Drafftio e-gylchlythyr a'i ddosbarthu i dros 6,000 o danysgrifwyr gan gynnwys rhanddeiliaid, noddwyr prosiectau a'r cyhoedd. | – Amlygu datblygiadau a chyflawniadau diweddaraf rhaglenni a phrosiectau, digwyddiadau sydd i ddod, a gwybodaeth a chanllawiau ar gyflawni rhaglenni 2014–2020 gan gynnwys unrhyw alwadau am gyllid ar gyfer blaenoriaethau penodol y rhaglen<br>– Integreiddio datblygiadau â rhaglenni cyllid eraill yr UE, gan gynnwys Horizon 2020 a rhaglenni Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd | Tîm Cyfathrebu WEFO | Bob pythefnos |
| 1.6 Mynd ati i achub ar gyfleoedd i ddangos effaith gadarnhaol cronfeydd yr UE/polisi rhanbarthol yng Nghymru | Paratoi astudiaethau achos / straeon llwyddiant sy'n tanlinellu cyflawniadau prosiectau a chyfranogwyr gan ddefnyddio amrywiaeth o sianeli, gan gynnwys rhai noddwyr a rhanddeiliaid eraill er mwyn rhannu negeseuon allweddol yn eang e.e. Tasglu'r Cymoedd, Dinas-ranbarthau ac ati | Tîm Cyfathrebu WEFO | Parhaus |

| Mesur | Gwybodaeth Ychwanegol | Cyfrifoldeb Arweiniol | Amserlen ar gyfer Gweithredu |
|---|---|---|---|
| | | | |
| 1.7 Hyrwyddo Diwrnod Ewrop (9 Mai) yn unol ag Erthygl 7 y Rheoliadau Ewropeaidd | Mesurau cyhoeddusrwydd penodol i gynnwys:<br>– ymgyrch Twitter mewn cydweithrediad â noddwyr prosiectau a rhanddeiliaid i hyrwyddo negeseuon cadarnhaol ynghylch effaith cronfeydd yr UE a phrosiectau yng Nghymru<br>– Archwilio cyfleoedd digidol i hyrwyddo Diwrnod Ewrop<br>– hedfan y faner Ewropeaidd ar safleoedd Llywodraeth Cymru / WEFO<br>– cyhoeddi cylchlythyr cronfeydd yr UE arbennig ar gyfer Diwrnod Ewrop yn ystod wythnos Diwrnod Ewrop | Tîm Cyfathrebu WEFO, ar y cyd â noddwyr prosiectau a rhanddeiliaid, gan gynnwys Timau Ymgysylltu Rhanbarthol / Tîm Ewropeaidd y Trydydd Sector ac ati | 9 Mai |
| 1.8 Cymryd rhan mewn ymgyrchoedd a mentrau wedi'u harwain gan UE fel yr UE yn fy Rhanbarth, EYCH, RegioStars a gweithgareddau cyfathrebu eraill yr UE er mwyn dangos llwyddiant yng Nghymru wrth gyflawni rhaglenni'r UE ar lwyfan yr UE. | – Cadw mewn cysylltiad agos â'r Comisiwn Ewropeaidd a chynrychiolwyr cyfathrebu'r DU.<br><br>– Sicrhau'r cyhoeddusrwydd mwyaf ar lefel Cymru i gyflawniadau yn deillio o gyfranogi fel rhoi cyhoeddusrwydd i gyflawniadau Cymru o ran EYCH a RegioStars drwy hysbysiadau yn y wasg, Twitter ac ati. | Tîm Cyfathrebu WEFO, ar y cyd â swyddfeydd y CE ym Mrwsel, Caerdydd a Llundain | Parhaus |
| 1.9 Parhau i ddatblygu eitemau hyrwyddo i'w defnyddio mewn digwyddiadau a sianeli cyhoeddusrwydd eraill | – Datblygu dull brandio newydd ar gyfer stondinau dros dro ac ati, cynrychioli ardaloedd rhanbarthol a meysydd thematig<br><br>– Parhau i ddatblygu eitemau hyrwyddo fel y bo'n briodol. | Tîm Cyfathrebu WEFO | Parhaus |
| 2.0 Adeiladu ar lyfrgell ffotograffau, astudiaethau achos a lluniau digidol o brosiectau a buddiolwyr i'w defnyddio mewn cyhoeddusrwydd ac ati | Adeiladu ar lyfrgell ffotograffau ac astudiaethau achos i'w defnyddio mewn datganiadau i'r wasg, cyhoeddiadau, hysbysiadau, digwyddiadau, cyflwyniadau ac ar gyfryngau cymdeithasol. | Tîm Cyfathrebu WEFO, ar y cyd â noddwyr prosiectau a rhanddeiliaid | Camau gweithredu parhaus drwy gydol y flwyddyn |

| Mesur | Gwybodaeth Ychwanegol | Cyfrifoldeb Arweiniol | Amserlen ar gyfer Gweithredu |
|---|---|---|---|
| | | | |
| **Blaenoriaeth 2: Parhau i sicrhau bod noddwyr prosiectau, partneriaid a rhanddeiliaid, gan gynnwys y Timau Ymgysylltu Rhanbarthol, yn deall gofynion rheoliadol o ran hyrwyddo rhaglenni ERDF ac ESF ac yn cydymffurfio â nhw** | **Grŵp targed – noddwyr prosiectau a buddiolwyr, Timau Ymgysylltu Rhanbarthol / Tîm Ewropeaidd y Trydydd Sector.**<br><br>**Y prif gamau gweithredu yw'r Canllawiau Gwybodaeth a Chyhoeddusrwydd (yn ymgorffori gofynion rheoliadol yr UE) ar gyfer noddwyr prosiectau (cyhoeddwyd ar wefan Llywodraeth Cymru), cynnal seminarau ar y gofynion rheoliadol ar gyfer staff WEFO, y Timau Ymgysylltu Rhanbarthol / Tîm Ewropeaidd y Trydydd Sector a noddwyr prosiectau er mwyn sefydlu sianeli cyfathrebu priodol rhwng WEFO a'r Timau Ymgysylltu Rhanbarthol / Tîm Ewropeaidd y Trydydd Sector.** | **WEFO, ar y cyd â'r Timau Ymgysylltu Rhanbarthol / Tîm Ewropeaidd y Trydydd Sector** | **Camau gweithredu parhaus drwy gydol y flwyddyn** |
| 2.1 Adolygu arferion gorau o ran Canllawiau Gwybodaeth a Chyhoeddusrwydd (yn ymgorffori gofynion rheoliadol yr UE) ar gyfer noddwyr prosiectau a buddiolwyr a'u rhoi ar waith | - sicrhau bod mesurau gwybodaeth a chyhoeddusrwydd wedi'u hintegreiddio'n llawn yn y broses cyflawni prosiect a'u bod yn cael eu monitro gan WEFO er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth;<br><br>– ymateb yn brydlon ac yn effeithiol i ymholiadau cyfathrebu gan staff WEFO a noddwyr. | WEFO, ar y cyd â noddwyr prosiectau a'r Timau Ymgysylltu Rhanbarthol / Tîm Ewropeaidd y Trydydd Sector | Cyhoeddi canllawiau ar dudalennau gwe Llywodraeth Cymru ac ymgymryd ag adolygiad parhaus i gwmpasu arferion gorau |
| 2.2. Adolygu cyfleoedd ar gyfer seminarau gloywi ar ganllawiau gwybodaeth a chyhoeddusrwydd a'r gofynion ar gyfer noddwyr, a rhannu arfer gorau | Seminarau gloywi i gwmpasu gofynion rheoliadol yr UE a gofynion cytundebol yr Awdurdod Rheoli, blaenoriaethau gwybodaeth a chyhoeddusrwydd, arferion gorau, a blaengynllunio a monitro ar lefelau cenedlaethol a rhanbarthol; wedi'u teilwra i ddiwallu anghenion Timau Ymgysylltu Rhanbarthol, Tîm Ewropeaidd y Trydydd Sector, staff WEFO a noddwyr prosiectau. | WEFO | Camau gweithredu parhaus drwy gydol y flwyddyn |
| 2.3 Cymryd rhan mewn adolygiadau prosiect rheolaidd gyda noddwyr, a chwrdd â | – Sicrhau yr eir i'r afael â gweithgareddau cyfathrebu prosiectau, arferion gorau a chyfleoedd cysylltiadau cyhoeddus yn ystod cyfarfodydd adolygu prosiectau | Tîm Cyfathrebu WEFO ar y cyd â'r Is-adran Rheoli Rhaglenni, Timau Ymgysylltu Rhanbarthol, Tîm | Camau gweithredu parhaus drwy gydol y flwyddyn |

| Mesur | Gwybodaeth Ychwanegol | Cyfrifoldeb Arweiniol | Amserlen ar gyfer Gweithredu |
|---|---|---|---|
| swyddogion cyfathrebu prosiectau lle y bo'n briodol | – Adolygu a darparu cyfraniadau golygyddol ar gyfer cylchlythyrau rhanbarthol Timau Ymgysylltu Rhanbarthol, lle bo'n briodol<br><br>– Cymryd rhan yng nghyfarfodydd WEFO gyda Thimau Ymgysylltu Rhanbarthol er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am weithgareddau cyfathrebu ac arfer gorau | Ewropeaidd y Trydydd Sector a noddwyr prosiectau | |
| 2.4 Dosbarthu placiau a phosteri coffaol am ddim i bob noddwr sydd wedi cael cyllid wedi'i gymeradwyo o dan raglenni 2014–2020 (yn unol ag Erthygl 8 y Rheoliadau Ewropeaidd) | – Placiau a phosteri coffaol am ddim, yn arddangos logo'r cronfeydd UE perthnasol, i'w dosbarthu i bob noddwr prosiect waeth beth fo gwerth y grant.<br><br>– Dylunio, drafftio testun, a dosbarthu posteri A3 i brosiectau eu harddangos | Tîm Cyfathrebu WEFO | Camau gweithredu parhaus drwy gydol y flwyddyn |
| **<u>Blaenoriaeth 3: </u>Trefnu digwyddiad blynyddol i hyrwyddo cyflawniadau'r rhaglenni** | **<u>Grŵp targed</u> – rhanddeiliaid cenedlaethol, rhanbarthol a lleol yn bennaf a noddwyr posibl, y Comisiwn Ewropeaidd, y cyfryngau a'r cyhoedd.** | Tîm Cyfathrebu WEFO | **Gaeaf** |
| 3.1 Trefnu digwyddiad blynyddol ar gyfer rhaglenni yn cynnwys rhanddeiliaid allweddol a buddiolwyr, gan gynnwys cydnabod cyflawniadau'r rhaglen | – Digwyddiad wedi'i drefnu ar gyfer 28 Tachwedd yng Nghaerdydd<br><br>- hyrwyddo lluniau digidol o gyflawniadau a chyhoeddi hysbysiad i'r wasg Gweinidogol ac ati ar gynnydd rhaglenni a cherrig milltir prosiectau<br><br>– Cyfle i dawelu meddwl rhanddeiliaid a buddiolwyr am yr ymrwymiad i gyflawni rhaglenni yng nghyd-destun Brexit<br><br>– Gwerthuso effeithiolrwydd digwyddiad i lywio cynnwys digwyddiadau yn y dyfodol | Tîm Cyfathrebu WEFO | Gaeaf |

| Mesur | Gwybodaeth Ychwanegol | Cyfrifoldeb Arweiniol | Amserlen ar gyfer Gweithredu |
|---|---|---|---|
| **Blaenoriaeth 4: Cynnal a chadw a diweddaru adran cronfeydd yr UE dwyieithog ar wefan Llywodraeth Cymru** | **<u>Grŵp targed</u> – rhanddeiliaid cenedlaethol, rhanbarthol a lleol yn bennaf a noddwyr posibl, y Comisiwn Ewropeaidd, awdurdodau rheoli eraill yr UE, y cyfryngau a'r cyhoedd.** | **Tîm Cyfathrebu WEFO** | **Camau gweithredu parhaus drwy gydol y flwyddyn** |
| 4.1. Sicrhau ei bod yn hawdd llywio adrannau'r wefan a'i bod yn ystyriol o ddefnyddwyr, a bod cynnwys yn gyfredol | Adolygu cynnwys yn rheolaidd er mwyn cyflawni swyddogaethau busnes craidd, gan gynnwys mynediad at WEFO Ar-lein, drwy arolygon ar-lein, adborth ac ati | Tîm Cyfathrebu WEFO | Camau gweithredu parhaus drwy gydol y flwyddyn |
| 4.2. Datblygu cronfa ddata â pheiriant chwilio ar gyfer prosiectau a gymeradwywyd (yn unol ag Erthygl 7 y Rheoliadau Ewropeaidd) | Bydd y gronfa ddata newydd yn cynnwys manylion sylfaenol prosiectau a gymeradwywyd h.y. enw buddiolwr, enw prosiect, swm y dyraniad grant ERDF / ESF, dyraniad y taliad terfynol ac ati, gan gydymffurfio â rheoliadau'r CE | Tîm Cyfathrebu WEFO, ar y cyd â Thîm Gwefannau Canolog Llywodraeth Cymru | Bydd gwaith yn dechrau ym mis Tachwedd |
| **Blaenoriaeth 5: Gwerthuso effeithiolrwydd gweithgareddau a chynnwys cyhoeddusrwydd allweddol er mwyn llywio cyfathrebu yn y dyfodol** | **<u>Grŵp targed</u> – at ddibenion mewnol yn bennaf, ond rhannu arfer gorau a'r gwersi a ddysgwyd â rhanddeiliaid cenedlaethol, rhanbarthol a lleol, a'r Comisiwn Ewropeaidd.** | Tîm Cyfathrebu WEFO | Parhaus |
| 5.1 Gwerthuso ymgyrch gan ddefnyddio model gwerthuso a gydnabyddir ledled y DU | Sicrhau bod model gwerthuso OASIS yn cael ei ddefnyddio er mwyn adolygu a gwerthuso gweithgareddau fel digwyddiad blynyddol ac ymgyrch cyfryngau cymdeithasol Diwrnod Ewrop. | Tîm Cyfathrebu WEFO | Parhaus<br><br>Defnyddir model OASIS i werthuso'r digwyddiad Blynyddol ym mis Rhagfyr 2018 |
| 5.2 Gwerthuso'r cyfryngau cymdeithasol, y we a'r wasg yn barhaus er mwyn adolygu ac addasu effeithiolrwydd cynnwys | Creu a rhannu adroddiadau gwerthuso misol ac addasu templed er mwyn cadw i fyny â blaenoriaethau sianel newidiol | Tîm Cyfathrebu WEFO | Misol |